# Y DINESYDD

Tachwedd 2025 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 502 £1.50







## Corws y Cwmni Opera Cenedlaethol - tud. 9

## Gwaith amhrisiadwy Arfon Jones tud. 11

Cod QR Y Dinesydd

# Y DINESYDD

**Golygydd**
**John Emyr**

***Golygydd Rhagfyr / Ionawr***
***Manon Phillips***

Cyfraniadau erbyn **27 Tachwedd** at:
manonph@googlemail.com

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau:
Dr David Charles
david.charles1040@gmail.com
7 Vaughan Avenue, Llandaf,
Caerdydd, CF5 2HR

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

e-bost:
ydinesydd@hotmail.com

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


**Llongyfarchiadau mawr i Hannah Roberts ar ennill cystadleuaeth y soned yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid 2025.**



Y mae Hannah yn fardd toreithiog ac wedi ennill nifer fawr o gadeiriau dros y blynyddoedd diwethaf yn yr eisteddfodau lleol**.** Dyma'r soned fuddugol.

**Arswyd**


'Rwyf gartre yn y tŷ ar ben fy hun,
yn teimlo'n ddewr wrth edrych ar y cloc,
yn eistedd wrth y ford yn tynnu llun
a gwrando ar ddim byd ond y tic toc.
Yn sydyn, daeth ryw nodau at y glust
doh mi soh doh, piano'n whare tôn,
aeth arswyd drwof, a chlustfeiniais, ust,
doh mi soh doh, pe bae e ond y ffôn!
O na bai sŵn y drws, a Mam yn ôl,
ai ysbryd yw? ni chlywai neb fy nghri,
dwi'n dweud wrth f'hun i beidio bod yn ffôl
wrth reswm nawr, 'mond fi sy' yn y tŷ.
Pipo rownd y drws, a gweled yno
y gath yn cerdded ar y piano!


**Nid yw pwyllgor *Y Dinesydd* o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan y cyfranwyr**.


## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd Frenhinol
**IECHYD DA**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



*'Nadolig ar ei ffordd i'n cadw'n ddiddig a phrysur!'*

Mis Tachwedd – y Mis Du gan fod y nos yn hwy na'r dydd erbyn hyn a dail y coed yn drwch crin ar lawr a'r tywydd wedi gwaethygu. Ond codwch eich calonnau gan fod y Nadolig ar ei ffordd i'n cadw'n ddiddig a phrysur! Yna bydd hi'n ddiwedd 2025, a diolch byth am hynny gan iddi fod yn flwyddyn hynod o gythryblus yn hanes y byd.

Pan es i i'r Wladfa am y tro cyntaf nôl yn 1991, on i erioed wedi clywed am y gêm padel sy'n debyg i dennis, a ches i dipyn o syndod yn y Gaiman wrth weld pobl yn chwarae'r gêm ar gyrtiau pwrpasol. Bellach mae'r gêm yn boblogaidd dros y byd, mae'n debyg, ac erbyn hyn mae'r gêm wedi cyrraedd Cymru. Yn 2023 gwnaeth dinas Abertawe agor Canolfan Padel gan fod cymaint o alw, ac yma yng Nghaerdydd eleni mae'r Cyngor wedi codi wyth cwrt padel ar Gaeau Llandaf. Credir bod tua 400,000 o bobl yn chwarae padel ym Mhrydain ar hyn o bryd.

Cafwyd Ras Hanner Marathon hynod o lwyddiannus yng Nghaerdydd y mis diwethaf hefo bron 30,000 yn cymryd rhan. Odd yr enillwyr yn Ras y Dynion a'r Merched yn dod o'r Affrig. Ond yn Hanner Marathon Abertawe daeth dau Gymro i'r brig, sef Dewi Griffiths yn gyntaf, ac yn dynn wrth ei sodlau Josh Griffiths, y ddau yn hannu o orllewin Cymru. Ychydig flynyddoedd yn ôl daeth Josh Griffiths yn seithfed ym Marathon Llundain, a synnu pawb!

Yn ystod yr haf daeth y rhedwr marathon byd-enwog Steve Jones o'i gartre yn Boulder Colorado yn yr Amerig nôl i Lyn Ebwy, ei dre enedigol, i ddadorchuddio cerflun metel iddo sy'n dynodi ei gamp yn torri Record y Byd am redeg ym Marathon Chicago flynyddoedd yn ôl.

Yn ystod yr haf hefyd ymwelodd Nicoletta Mantovani (gweddw y tenor byd-enwog Luciano Pavarotti) â'r Eisteddfod yn Llangollen er mwyn cyflwyno Tlws Coffa yn ei enw, gan y byddai wedi bod yn 90 oed eleni. Daeth Pavarotti i'r Eisteddfod gyntaf nôl yn 1955, yn ŵr ifanc hefo'i dad i gystadlu mewn cystadleuaeth gorawl. Yna, yn 1995, dychwelodd i'r Ŵyl i ganu mewn cyngerdd ac yntau yn fyd-enwog erbyn hynny. Gwnaeth ei weddw eleni wahodd 36 o aelodau Côr Meibion Froncysyllte i Modena, ei dre enedigol yn yr Eidal, i ganu yn rhan o Ŵyl Bel Canto yno ar 12 Hydref gan iddi gael ei swyno gan y côr pan glywodd y côr yn canu ar Orsaf Drên Corwen tra odd hi draw yng Nghymru eleni. Cafwyd nawdd i'r côr deithio i'r Eidal gan ŵr a gwraig o'r enw Mario a Gill Kreft.

Tipyn o syndod odd clywed bod canolwr tîm rygbi merched Lloegr, sef Megan Jones, yn Gymraes Gymraeg o Gaerdydd, a hithau wedi bod yn ddisgybl yn Ysgol Glantaf! Odd hawl ganddi i chwarae yn nhîm Cymru a thîm Lloegr gan fod ei thad yn Gymro a'i mam yn Saesnes. Mae canmol ar ei chwarae, mae'n debyg, a chafodd ei henwebu ar gyfer Chwaraewr y Flwyddyn. Da iawn hi!

Croeso nôl i Gymru o'r Amerig i'r actor enwog Mathew Rhys sy hefyd yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf, a'r mis hwn bydd ar daith yng Nghymru yn actio Sioe Undyn am Richard Burton. Bydd elw'r daith yn mynd tuag at gronfa Cwmni Theatr Genedlaethol Cymru sy wedi ei sefydlu gan yr actor enwog Michael Sheen o Bort Talbot. Mae o wedi buddsoddi llawer o'i arian personol yn sefydlu'r theatr hon. Bydd Mathew yn perfformio'r sioe yn Theatr y Reardon Smith yma yng Nghaerdydd ar 21 Tachwedd cyn gorffen y daith ym mhentre genedigol Richard Burton ym Mhont-rhyd-y-fen ger Port Talbot.

Yn Noson Gwobrau Baffta Cymru eleni, enillodd y gyflwynwraig brofiadol a galluog Bethan Rhys Roberts wobr arbennig Siân Phillips, yn ogystal â gwobr arall i gydnabod ei gwaith graenus ar S4C yn ystod Etholiad 2024. Hefyd daeth anrhydeddau lu i Daf James, yntau yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf, am ei ddrama *Lost Boys and Fairies* a ddangoswyd ar rwydwaith teledu Prydeinig yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchiadau gwresog i'r ddau ohonyn nhw.

Wel dyna ni rŵan tan fis Rhagfyr, a hwyl fawr am y tro!

***Anfonwn ein cofion cynhesaf at ein colofnydd Gwilym Roberts, sy'n treulio cyfnod yn yr ysbyty.***

***Gwellhad buan.***

---

**Melin**

**Gig 'Dolig Delwyn.** Delwyn Siôn a'r Band yng nghlwb yr Earl Haig, yr Eglwys Newydd ar nos Iau 27 Tachwedd . Tocynnau ar gael o siop Iechyd Da a chlwb yr Earl Haig, yr Eglwys Newydd.

**Clwb Canna**

Y gig nesaf fydd band ifanc Dadleoli yn cefnogi band retro 50au Pwdin Reis ar nos Wener, 14 Tachwedd yng Nghlwb y Liberals, Treganna, CF15 1JD. Tocynnau yn £15 ar werth yn Caban, Pontcanna, neu trwy ticketsource.co.uk/Clwb Canna.

Croeso cynnes i bawb. Mae'n rhaid i blant dan 16 fod gydag oedolyn cyfrifol.

Dilynwch ni ar Facebook.

# Merched y Wawr Caerdydd

Yng nghyfarfod mis Hydref, daeth Aled Eurig atom i gyflwyno ei lyfr newydd, *Dafydd Elis-Thomas* (Gwasg Prifysgol Cymru, Medi 2025).



Magwyd Aled yn ardal Abertawe a chafodd ei addysg yn Ysgol Gyfun Ystalyfera a Phrifysgol Aberystwyth. Yn ystod ei yrfa amrywiol, mae wedi gweithio fel newyddiadurwr a Phennaeth Newyddion a Materion Cyfoes gyda'r BBC, darlithydd, cynghorydd cyfansoddiadol yn y Senedd, ac fel Cadeirydd ar nifer o Bwyllgorau blaenllaw. Mae hefyd yn awdur, ac mae holl gopïau argraffiad cyntaf ei lyfr ar Dafydd Elis-Thomas wedi'u gwerthu eisoes.

Rhannodd bytiau difyr am y person y tu ôl i'r wyneb cyhoeddus. Ers yn ifanc, roedd Dafydd yn frwd dros faterion gwleidyddol a chyfoes – byddai'n siarad yn gyhoeddus dros achosion fel CND a Suez yn ei arddegau, ac yn ddiweddarach dros Blaid Cymru. Roedd yn athrylith academaidd a allai fod wedi mynd i Rydychen neu Gaergrawnt, ond dewisodd astudio yn Aberystwyth a bu'r Brifysgol yn agos iawn at ei galon ar hyd ei oes.

Mae hanes gwleidyddol Dafydd Elis-Thomas ym Mhlaid Cymru yn gyfarwydd. Ei gyfraniad mwyaf oedd ei waith yn sefydlu'r Senedd, ei chyfansoddiad, a'r adeilad ei hun a ystyriai'n symbol annatod o ddatganoli. Rhoddodd y sgwrs flas ar gynnwys llyfr Aled, ac roedd cyfle i brynu copi ar ddiwedd y sesiwn gan fod siop Cant a Mil wedi dod â detholiad o lyfrau a nwyddau Nadoligaidd i'w gwerthu.

Cynhelir cyfarfod mis Tachwedd yn y prynhawn – am 2.30pm ar 11 Tachwedd, pan fydd Nerys Howell yn cyflwyno ryseitiau sy'n defnyddio bwydydd tymhorol. Mae croeso i bawb.



# Merched y Wawr Bro Radur

Bellach mae ias hydrefol yn crwydro ar awel y bore, a llenni'r nos yn disgyn ynghynt. Mae'r siwmperi a'r sanau wedi dod allan o'r cwpwrdd, ac edrychwn ymlaen at nosweithiau o gwtsio lan ar y soffa ger y tân. Bydd llai o fynd am dro, ac yn lle saladau'r haf a ffrwythau ffres byddwn yn glafoerio dros gaserolau poeth a phwdinau sbwng neu dartenni wedi'u trochi mewn cwstard poeth. Ond yn ein cyfarfod gydag Anna Reich, sy'n ferch o Gaerdydd, cawsom ein hatgoffa o'r hyn sy'n hanfodol i gadw ein cyrff a'n meddyliau'n iach beth bynnag y tymor.

A ninnau bellach yn griw o ferched gyda'r oedran cyfartalog dros 60, nododd Anna bod ein cyrff angen llai o galorïau, ac mai deiet isel mewn halen ond uchel mewn omega 3 a fitamin B12, megis deiet Môr y Canoldir, sy'n addas i ni. Er lles ein hiechyd meddwl y mae cymdeithasu'n hollbwysig, a chawsom ein hannog i ymuno â chlybiau gwahanol. Mae siarad ag eraill yn ffordd i rannu gofidiau a chodi'r hwyliau pan deimlir yn isel. Dangosodd hefyd nifer o ymarferion corfforol y gallwn eu gwneud wrth eistedd mewn cadair er mwyn ystwytho a chryfhau'r corff. A chafwyd hwyl wrth ymuno i wneud y rhain. Ond rhaid dal ati i'w gwneud yn gyson os am deimlo'r effeithiau. A dyna'r her!

Wrth i Anna sgwrsio'n gwbl gartrefol a hwyliog, roedd ei brwdfrydedd yn heintus. Dyma un sy'n amlwg yn mwynhau ei gwaith, a hynny'n ychwanegu at ei sirioldeb a'i diffuantrwydd wrth gyflwyno ei neges. Mae ganddi gampfa ar Heol y Gadeirlan ers nifer o flynyddoedd, ac y mae'n cynnig sesiynau un-i-un neu mewn grŵp i rai sydd am gadw'n iach a heini. Mae hefyd yn rhannu ei chynghorion ar **Prynhawn Da** ar S4C ac yn cynnal sesiynau i Fenter Caerdydd.

Amdani ferched!



# Colofn Natur



## *Chwilio am Wlithod y Môr*

**Gethin Jenkins-Jones**

Yn ystod fy nghyfnod o astudio ym Mhrifysgol Caerwysg (sy'n dechrau teimlo fel amser maith yn ôl!), un o fy hoff hobïau oedd chwilio am greaduriaid bach ymysg pyllau trai yr arfordir. Yn ffodus, roeddwn yn byw o fewn tafliad carreg at rai hynod oedd yn gyforiog o grancod, malwod, sêr môr a physgod amrywiol. Gyda dim ond sŵn tonnau a gwylanod ar y clyw, roedd chwilio'r pyllau yn aml yn gysur i'r pen ar adeg straen y traethodau a'r arholiadau. Weithiau, hefyd, roedd yn gyfnod cymdeithasol, a ffrindiau'n ymuno efo fi i archwilio gyda'n gilydd. Wna' i byth anghofio gweld Pysgod Bili Bigog a Chrancod y Môr Gwynion am y tro cyntaf, ac yn sicr roedd nifer o drysorau cudd na lwyddais i'w gweld erbyn i mi adael yn haf 2020.

Prin ydy'r pyllau trai bioamrywiol ar yr arfordir ger Caerdydd; mae 'na fwy i'w gweld wrth i chi deithio tua'r gorllewin. Wedi i mi symud i Fangor ddwy flynedd yn ôl, roeddwn yn awyddus i adnewyddu fy niddordeb yn y pyllau trai, a dwi wedi mwynhau chwilio ymysg y gwymon a'r cerrig yn sawl man ar arfordir Ynys Môn. Fodd bynnag, yr wythnos diwethaf cefais brofiad hynod o anhygoel ac unigryw, ac nid ar hyd ardal gudd neu anghysbell, ond reit o dan Bont Menai!

Roeddwn yn cerdded gyda ffrind ar hyd glan y Fenai, yr haul bron â machlud, pan gefais neges destun oddi wrth ffrind arall. Dywedodd fod grŵp o ffrindiau am fynd at y pyllau o dan Bont Menai am awr neu ddwy, a gofynnodd a hoffwn i ymuno. Heb eiliad o betruso, cerddais yn syth at y bont, ac roeddwn yn weddol gyffrous wrth i ni nesáu. Nid oeddwn erioed wedi chwilio pyllau yn ystod y nos o'r blaen (cyfnod prysur i'r creaduriaid, yn ôl pob sôn), ond yn fwy fyth, roeddwn yn gwybod fod yna gyfle i mi weld anifeiliaid arbennig iawn – gwlithod y môr – am y tro cyntaf.

Molysgiaid rheibus yw gwlithod y môr; ond maen nhw'n hynod o liwgar a hardd. Bach iawn ydy'r mwyafrif, ac maent yn anodd iawn i'w gweld. Yn wir, ni lwyddais i'w ffeindio o gwbl tra'n astudio yng







Nghaerwysg. Roeddwn yn gwybod eisoes fod y Fenai yn ardal dda i'r creaduriaid hyn, ond er i mi chwilio ambell waith, nid oeddwn yn llwyddiannus. Gyda grŵp ohonom yn chwilio, fodd bynnag, roeddwn yn llawer mwy optimistaidd.

Roedd tua dwsin o bobl yn chwilio wrth i ni gyrraedd – myfyrwyr i gyd, mae'n debyg – a'r mwyafrif yn defnyddio tortsh i sbïo'n ofalus o dan y creigiau. Roedd rhai wedi dod â photiau gyda nhw, ac yn uchel lan y traeth gorweddai hambwrdd llawn dŵr môr i bobl roi'r anifeiliaid gorau ynddo. Wedi i ni fwyta tamaid o fwyd, fe wnaethon ni ymuno â'r criw, gan ddefnyddio golau ein ffonau i chwilio (a hefyd i'n hatal rhag llithro!). Gwelsom seren frau, berdys, pysgod, a chrancod meudwy. Cychwyn da, ac wedi tua hanner awr ffeindiodd rhywun y llofrudd môr cyntaf – *Tenellia cuanensis*. Wna' i byth anghofio edrych i mewn i un o'r potiau a gweld y lliwiau oren a glas llachar. Am anifeiliaid rhyfedd! Sgwrsiais gyda'r myfyrwyr am ecoleg yr anifeiliaid, ac fe ddywedon nhw fod gan y rhan fwyaf o'r anifeiliaid hyn y lliwiau anhygoel i rybuddio ysglyfaethwyr eu bod yn wenwynig. O fewn yr awr nesaf, fe wnaethon ni ffeindio pum rhywogaeth arall – pob un yn unigryw! Roedd yn hyfryd iawn gweld pawb yn ymgasglu wrth i un newydd gael ei ffeindio, a phawb yn rhannu'r foment arbennig. Edrychais i fyny at y ceir yn brysio ar hyd Pont Menai. 'Tybed faint o'r modurwyr sy'n gwybod am fodolaeth y trysorau natur hyn sy'n crwydro o dan eu trwynau?' meddyliais.

Un peth arall sy'n ddiddorol am wlithod y môr yw hyn: ar lefel rhywogaeth, nid oes ganddynt enwau Cymraeg. Gwnaeth hyn fy synnu braidd, gan fod enwau hyfryd gan lawer o'n bywyd gwyllt yn ein hiaith. Os ydy'r anifeiliaid yma yn eich ysbrydoli chi, am brosiect cyffrous fyddai creu enwau creadigol a barddonol am y rhain dros y blynyddoedd nesaf!

# Pobol y Rhigwm

**Limrig yn cynnwys y llinell**: Ar Dachwedd y pumed, rhaid cofio

Ydy, mae hydref 2025 wedi cyrraedd ei anterth, erbyn hyn, a'r beirniad – fel y gŵyr selogion y golofn hon – uwchben ei ddigon! Rwy'n sgrifennu hwn ddeuddydd ar ôl gwrthdroi bys bach y cloc, yn llawn diddosrwydd yr adeg arbennig hon o'r flwyddyn. At hynny, mae'r coed wedi bod yn ysblennydd eleni, ffrwydrad go iawn o liwiau. Fe fyddwn ni, wrth gwrs, yn profi ffrwydrad mwy synthetig o liwiau ar Dachwedd y pumed, sef symbyliad y testun a osodais ar gyfer y dasg y tro hwn. Rhyw fath o barodi ar yr hen rigwm cyfarwydd hwnnw, "*remember, remember* ..." oedd gyda fi mewn meddwl. Pedwar limrigwr yn unig wnaeth roi cynnig arni, ac er na chafwyd sioe farddol gyfuwch â thân gwyllt castell Caerffili, ro'dd y pedair roced o dan sylw yn ddigon i'm difyrru yn arddangosfa gardd gefn y *Dinesydd*! Yn anad dim, ro'dd yn destun rhyddhad i'r beirniad na fentrodd unrhyw un gynnig 'limrig difrifol'. Ma pethe felly megis *banger* sy'n gwrthod tanio ar noson lawog, a dylid byth dychwelyd atyn nhw! Dyma air am y pedwar:

Ar Dachwedd y pumed, rhaid cofio,
bu parti tân gwyllt gan ein hathro.
Dosbarthodd e sbarclers,
ond aeth e'n llwyr boncers
bryd bynnag y cawsant eu tanio.

*Diogel*

Limrig twt, sy'n llifo'n rhwydd yw ymgais *Diogel*. Hwn, hefyd, yw ymgais fwya swreal y gystadleuaeth! Fel yr haenen fyglyd a geir yn dilyn arddangosfa tân gwyllt, dyw hi ddim yn hollol glir beth sy'n mynd ymlaen yma. Yn oddrychol ddigon, beth wela i – ar sail y ffugenw – yw athro, neu berson cyfrifol, yn ymddwyn yn blentynnaidd iawn ac yn groes i'w gyngor ei hun, ar ôl tanio sbarclers! Mae rhywbeth yn gomig iawn am yr ymadrodd "llwyr boncers", ond sylwer nad oedd angen treiglad meddal ar ddechrau'r pumed llinell.

Anfonodd y bwyty fy nghinio
ar Dachwedd y pumed, rhaid cofio.
Cyrhaeddodd y selsig
mewn cyflwr ffantastig
fel anrheg Nadolig i'r cadno.

*Llangoll*

Maddeuwch imi, *Llangoll*, os ydw i'n methu â gweld rhyw ystyr ddyfnach i'r limrig hwn, oni bai am stori wirioneddol ddigri am rywun wnaeth archebu selsig ar ddechrau mis Tachwedd, dim ond i'r rheini gyrraedd dros fis yn ddiweddarach (gan gludydd ar fotobeic, rwy'n amau) mewn cyflwr llai na derbyniol! Mae'r limrig ei hun yn gwbwl dderbyniol, wedi'i saernïo'n grefftus ac yn gwneud defnydd gwreiddiol o'r llinell osodedig, hefyd, fe fydda i'n hoffi pethe felly. At hynny, caiff gymeradwyaeth y beirniad, am gynnwys yr Odl Fewnol!

Ar Dachwedd y pumed, rhaid cofio,
aeth pethau o chwith i'r hen Guto.
Nawr am ddial daw bwgan
i seler San Steffan,
a'r cynllwyn yw ethol Diwygio.

*Coelcerth*

Limrig sy'n asio hanes Tachwedd 5ed gyda'r hinsawdd wleidyddol sydd ohoni a gafwyd gan *Coelcerth*, ac mae e wedi gweithio'n dda! 420 o flynyddoedd ar ôl y "cynllwyn" gwreiddiol i ddifetha San Steffan, mae *Coelcerth* yn rhagweld "bwgan" arall sy'n bygwth y drefen waraidd, fel petai, a Chymreigio enw'r bygythiad hwnnw! Dewis cynnil, llwyddiannus o eiriau. Gwaetha'r modd, mymryn yn herciog yw'r 'bit yn y canol'! Bydde hepgor 'nawr' ar ddechrau llinell 3 yn datrys hynny, ac yn cysoni nifer y sillafau.

Ar Dachwedd y pumed rhaid cofio
bod angen *guy* blêr i'w gremato –
Ar goelcerth mewn ca'
Un boliog sy'n dda –
Ai dyna gudd rinwedd 'rhen Bojo?

*Guto*

Hwn sy'n mynd â hi. Y rheswm pennaf yw mai dyma'r limrig a gododd y wên lydanaf ar wyneb y beirniad y tro hwn. Y rheswm dros hynny, yn ei dro, yw'r ffordd y mae'r limrig wedi'i eirio'n dafodieithol o ffraeth. Er nad yw'r union eiryn, uniongyrchol Saesneg, '*guy*' yn hawlio'i le (bydde 'boi blêr' wedi gweithio i'r dim), mae ymadroddion fel "i'w gremato" a "mewn ca'" yn ddigri tu hwnt! Fel *Coelcerth*, dychanwr yw *Guto*, ac un wleidyddol yw'r ergyd ar y diwedd. Tybed pa foi blêr, boliog sy o dan sylw yma?! Dyw'r beirniad, wrth gwrs, ddim yn cymeradwyo "cremato" unrhyw wleidydd, o ba bynnag blaid! Mae'r modd i *Guto*, wedyn, gyfleu ei ddirmyg tuag at "'rhen Bojo" wedi'i weithio'n wreiddiol ac amserol (ac yn cael marcie ychwanegol am odl fewnol, wrth gwrs!) ac yn peri mai dyma'r roced a ddringodd uchaf yn arddangosfa'r golofn hon, fis Tachwedd eleni, llongyfarchiade iddo!

*Aron Pritchard*

*Anfonwch eich cynigion erbyn 25 Tachwedd : eirianagwilym@gmail.com   Gwobr Tocyn llyfr: £10*

**Enillydd Hydref**
**Alun Tobias, Caerdydd**

**Cystadleuaeth Tachwedd**

**Cywydd** neu **delyneg**, **chwe llinell**, ar gyfer gwasanaeth Nadolig

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd**

**ar Twitter @Dinesydd Cdydd, ar Facebook www.facebook.com/Ydinesydd,**

**ar Instagram dinesyddcaerdydd ac ar y we www.dinesydd.cymru**

# Merched y Wawr
# Y Felin



**Cyfarfod mis Medi**

Croesawyd nifer o aelodau i'n plith gan Eiry Davies, ein cadeirydd newydd sy'n olynu Glenys Evans a fu wrth y llyw am gyfnod. Diolchwyd yn wresog i Glenys am ei gwaith dros y blynyddoedd, a braf yw gwybod y bydd yn parhau fel aelod o'r pwyllgor.

Roedd noson agoriadol y gangen o dan arweiniad Kevin Davies sy'n wyneb cyfarwydd i nifer gan ei fod wedi gwasanaethu fel gweinidog yn Llangeler am 10 mlynedd, yna yn y Barri a nawr ym Mhenarth. Mae hefyd yn cyflwyno eitemau ar sut i greu trefniannau blodau ar y rhaglen **Pnawn Da**. Braint, felly, oedd mwynhau ei gwmni wrth iddo rannu sut i greu gwahanol drefniannau blodau. Llwyddodd i gyfuno hynny gydag ambell stori ddifyr.

Rhannodd ei fod yn hoff o ddefnyddio blodau yn eu tymor, a dangosodd sut i greu trefniant hydrefol gan ddefnyddio basged hesian a ffrwythau oedd yn ychwanegu at y naws hydrefol. Roedd yn hyfryd gweld sut yr oedd yn mynd ati i greu'r gwahanol drefniannau, gan ddefnyddio blodau cyfarwydd fel Astrantia, Pyracantha, Hydrangea a Dahlia. Gwych oedd gweld y ddawn arbennig sy ganddo yn creu'r campweithiau hyn, a bu'r aelodau yn y llun yn ddigon ffodus i ennill y trefniannau ar y noson. Diolch o galon, Kevin, am ddechrau gwych i'r tymor.

**Cyfarfod mis Hydref**

Braint oedd croesawu Helen Prosser i'n plith, cyfarwyddwr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac enw cyfarwydd fel un sydd wedi ymroi gymaint i gefnogi dysgwyr dros y blynyddoedd. Nododd iddi gael ei magu ar aelwyd ddi-Gymraeg, ac er bod Cymraeg yn y teulu ehangach dysgodd Gymraeg fel ail iaith oherwydd ei bod yn ymddiddori mewn ieithoedd.

Mae brwdfrydedd Helen dros gefnogi dysgwyr yn heintus, a soniodd yn afieithus am y **Cynllun Siarad** sy'n helpu siaradwyr Cymraeg i gefnogi pobl sy'n dysgu'r iaith drwy roi hwb i'w hyder gan osgoi ymddygiad sy'n tanseilio hyder. Rhannodd enghreifftiau o hyn gan ein hannog i arafu, symleiddio, siarad yn eglur, ailadrodd neu aralleirio, peidio â chywiro, peidio â gorffen brawddegau pobl drostynt, a bod yn amyneddgar a chyfeillgar wrth sgwrsio un-i-un gyda siaradwr newydd. Fel unrhyw un sy'n dysgu iaith newydd, gallwn uniaethu gydag ofnau a theimladau dysgwyr ynglŷn â gwneud camgymeriad, neu gamdreiglo, defnyddio Saesneg neu gam ynganu.

Eglurodd y gwahaniaethau sydd o ran y patrymau iaith fesul lefel Dysgu Cymraeg (Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch a Gloywi). Ac awgrymodd bynciau y gallwn ni eu codi gyda siaradwyr newydd ar y cynllun sydd wedi dilyn y cwrs Canolradd (twristiaeth, dyddiau ysgol, pobl ifanc, 'rhestr bwced', trefnu digwyddiad, byw yn wyrdd) neu'r cwrs Uwch (materion cyfoes ar y lefel uwch gan osgoi gwleidyddiaeth a chrefydd, trafod llyfr newydd, cyfres deledu newydd, drama newydd).

Felly, ceisiwch helpu'r dysgwyr.

---

# Cymrodorion Caerdydd

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Cymrodorion Caerdydd y tymor hwn ar nos Wener 3 Hydref gyda festri Salem, Treganna, yn gysurus lawn. Fodd bynnag, oherwydd salwch, nid oedd modd anrhydeddu'r llywydd newydd sef yr Athro Bill Jones. Yn ffodus, camodd ein llywydd y llynedd, sef Dr Dylan Foster Evans, i'r adwy a chafwyd sgwrs ganddo yn trafod cymeriad diddorol o'r enw Gustavus Adolphus John (c.1726–66) sydd wedi ei gladdu ym mynwent eglwys Llansbyddyd ger Aberhonddu. Dywed y garreg ar ei fedd mai un o Lanllwni ydoedd, ac mae cofnod hefyd ohono yn dysgu yn un o ysgolion cylchynol Griffith Jones yn Henllys ger Cwmbrân. Ond efallai mai'r peth mwyaf trawiadol amdano yw'r ffaith fod yr hanesydd Theophilus Jones (1758–1812) o'r farn mai dyn du oedd Gustavus. Os felly, mae'n debyg mai ei fedd ef yw'r gofeb gynharaf i rywun o liw yn y Gymru fodern. Mae bedd yr enwog John Ystumllun (c. 1738–1786), er enghraifft, ugain mlynedd yn ddiweddarach. Ond mae carreg fedd Gustavus a charreg fedd John yn rhannu un nodwedd benodol, sef bod englyn Cymraeg ar y ddwy. Byddai'n dda gwybod rhagor am Gustavus, ac efallai y daw rhagor i'r fei yn y dyfodol. Ond heb os, mae'n gymeriad sy'n codi llawer o gwestiynau diddorol am Gymru'r ddeunawfed ganrif.



Gobeithir trefnu cyfarfod ychwanegol i'r rhaglen gyhoeddedig, a hynny ar 9 Ionawr yn festri Salem er mwyn cael clywed anerchiad y llywydd presennol, yr Athro Bill Jones. Bydd croeso cynnes i bawb.

Cysyllter â: cymrodorioncaerdydd@google.com

# Siaradwyr Cymraeg Newydd



## *Antur ar arfordir Meirionnydd*

**Mae'r anturiaethau ar Lwybrau'r Arfordir yn parhau.**

Eleni, arhoson ni mewn tŷ hyfryd ger Abermaw a cherddon ni o Dywyn hyd 6 milltir o Borthmadog. Roedd hi tua 50 milltir. Doedd y tywydd ddim yn braf a do'n ni ddim yn gallu cerdded ar y diwrnod cyntaf oherwydd gwyntoedd cryfion a glaw.

Y diwrnod nesa, aethon ni ar y trên i Dywyn ac wedyn cerddon ni yn ôl i Abermaw. Ro'n ni'n disgwyl cerdded ar lan y môr ond cawson ni ein synnu pan ddringon ni i fyny'n eitha uchel. Cawson ni ein gwobrwyo â golygfa hyfryd o Abermaw o'r copa. Gorffennon ni ein taith gerdded trwy gerdded ar draws Pont Abermaw.

Wedyn roedd ein teithiau cerdded yn fyrrach. Cerddon ni o Abermaw i Ddyffryn Ardudwy, wedyn i Harlech ac wedyn i Landecwyn. Pob diwrnod gyrron ni i'r orsaf, aethon ni ar y trên a cherddon ni yn ôl. Ymwelon ni â Chastell Harlech. Mae e'n gastell braf. Ro'n ni wrth ein bodd gyda'r traethau hir a hardd ger Harlech a Dyffryn Ardudwy a'r golygfeydd gwahanol. Roedd hi'n gyffrous iawn gweld Portmeirion dros yr afon ger Llandecwyn.

Mwynheuon ni'r wythnos a dyn ni'n edrych ymlaen at yr antur nesaf.

*Julia a Julian Martin*



*Llun: Julian Martin*

## Gwilym Dafydd

**Diolch Lancer a chroeso Toyota Yaris**

Ydych chi wedi newid eich car yn ddiweddar? Wyddoch chi sut mae mynd ati i brynu car newydd neu ail law y dyddiau hyn?

Mae Eirian a fi wedi dysgu trwy brofiad yn ddiweddar, ac mae'n amlwg bod y byd ceir wedi symud ymlaen llawer ers i ni brynu Lancer nôl yn 2009. Tua 30 mil o filltiroedd oedd ar y cloc dros 16 o flynyddoedd yn ôl yn 2009, a chyfanswm parchus o 119,199 pan deithion ni am y tro olaf draw i Heol Hadfield ger Heol Penarth ar fore Mercher, 14 Hydref a dod nôl mewn Toyota Yaris glas tua tair blynedd a hanner oed (2022) ac ychydig dros 19 mil milltir ers hynny.

Roedd arwyddion ers rhai wythnosau os nad misoedd bod Lancer yn dioddef o 'finalitis' a doedd teithio'r holl ffordd i Ben-y-sarn ger Amlwch, Ynys Môn, yn fisol rhwng Mis Ebrill ac Awst eleni ddim wedi helpu'r achos. Dyw'r cyfuniad o geisio gwerthu hen dŷ teuluol bron 200 o filltiroedd i ffwrdd a gyrru hen gar sydd bellach yn dangos oedran ddim yn gyfuniad delfrydol!

Wrth edrych yn ôl, mae'n debyg ein bod wedi dal ati i yrru Lancer am flwyddyn yn rhy hir. Ond haws bod yn ddoeth wedi'r digwyddiad! Dwi wedi rhoi gwybod i Garej Monico am dynged Lancer ac ron nhw yno yn Llanisien o'r farn bod Lancer wedi bod yn gar ardderchog.

Mae Eirian wedi llunio nid un ond tri englyn er cof am Lancer! Os oes diddordeb gyda chi mewn englynion, yna croeso i chi fynd i chwilio amdanyn nhw yn fy nghyfrif Trydar neu X yn @GwilymDafydd.

**O Glonc i Glonc**

Wn i ddim yn hollol sawl grŵp Clonc sydd yn cyfarfod yn wythnosol neu'n fisol yng Nghaerdydd a'r cylch. Cofiwch medrwch chi ddechrau eich grŵp Clonc eich hunan – dim ond dau berson sydd angen! Os oes lluniau gyda chi, bydd croeso i chi eu hanfon ymlaen ataf.

Bydd Yr Awr Hapus yn 24 oed cyn diwedd mis Tachwedd, ac edrychwn ymlaen at fore Llun, 8 Rhagfyr, pan fyddwn yn dechrau chwarter awr yn hwyrach na'r amser arferol sef 10.45, yna carferi am 12.30 yn yr Hollybush, Coryton. Croeso cynnes i bawb – rhowch wybod o flaen llaw os byddwch am aros am y bwyd os gwelwch yn dda.

A dyma lun isod o'r Clonc diweddaraf yn neuadd Eglwys Dewi Sant ar fore Sadwrn, 18 Hydref, 10.30-12.00. Diolch i Delyth Davies am y llun.



# Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd

**Dechrau Blwyddyn o Ddathlu**

Wrth gyflwyno Nic Parry fel siaradwr gwadd cyntaf tymor newydd Cylch Cinio Caerdydd, cyfeiriodd ein Llywydd, Carys Tudor Williams, at y dywediad cyfarwydd mai'r ffordd orau o gael rhywbeth wedi'i wneud ydy gofyn i rywun prysur. Yn aml, gall y geiriau hynny swnio fel ystrydeb wag, ond y tro hwn roedd pawb yn sylweddoli na fu dim erioed yn nes at y gwir. Roedd Nic newydd ddychwelyd o Zürich lle bu'n gweld Bryn Terfel a Steffan Lloyd-Owen yn serennu yn yr Opernhaus mewn cynhyrchiad o 'Tosca', a chyn cael ei wynt ato, roedd yn troi boned y car tua'r brifddinas i gadw cwmni i ni. Byddai'n dychwelyd yr holl ffordd i Sir y Fflint yr un noswaith, ac yn paratoi i sylwebu ar ddwy gêm bêl-droed o fewn dyddiau i'w gilydd, y naill yn Wembley a'r llall yn ôl yng Nghaerdydd.



Nic Parry a Carys Tudor Williams, Llywydd y Cylch Cinio

Gwyddem ei fod yn ddewis ardderchog ar gyfer agor ein tymor o ddathlu wrth i ni nodi pen-blwydd y Cylch yn 75 oed. Efallai mai'r ffordd orau o grynhoi ei araith fyddai cyfeirio at stori a adroddodd Nic am achlysur pan oedd yn annerch criw enfawr o rai cannoedd o ddynion busnes, a rhywun yn gofyn iddo, yn hollol annisgwyl, pa fath o gyngor a fedrai roi i benaethiaid cwmnïau mawr i gadw eu gweithwyr yn ymroddedig a brwdfrydig yn eu gwaith. Yr ateb amlwg gan Nic oedd tynnu ar ei brofiad ei hun o wneud yn siŵr fod y cydbwysedd rhwng gwaith bob dydd a diddordebau allanol yn gymwys i greu person cyflawn, iach o gorff a meddwl.

Does ryfedd, felly, mai'r hyn a gawsom ni oedd cyfres o ddarluniau difyr o wahanol sefyllfaoedd yn cyffwrdd â bywyd llawn y siaradwr, a'r rheini'n ymestyn o'i blentyndod i'w yrfa ddisglair ym myd y gyfraith, ynghyd â'i ddiddordeb angerddol mewn pêl-droed a darlledu, a hynny'n cwmpasu pwysigrwydd yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Roedd yn gyflwyniad meistrolgar gyda'i huodledd arferol, a'r hanesion yn llithro'n rhwydd o'r lleddf i'r llon, gan bwysleisio gwirioneddau mawr am natur cyfiawnder a'r angen i warchod ein gwerthoedd a'n sefydliadau diwylliannol. Roedd hon, yn wir, yn noson i'w chofio.

Byddwn yn cyfarfod ar nos Lun gyntaf pob mis, ac os am ragor o fanylion cysylltwch â Paul Morgan ar 07761 696286 neu cylch.cinio@gmail.com a chofiwch fod croeso cynnes i bawb.

## Ymlaen â'r Gân!

Wedi cyfnod anodd o wynebu toriadau fel aelodau Corws Opera Cenedlaethol Cymru, a ninnau bellach i lawr i ugain, rhaid oedd wynebu'r tymor newydd ym mis Awst eleni gydag arddeliad. Mae ein cyd-gyfarwyddwyr newydd, Adele Thomas a Sarah Crabtree, yn frwdfrydig eu hysbryd ac yn gefnogol i'r Gymraeg (a da o beth yw hynny!). Cawsom wythnosau o ymarfer prysur cyn dechrau perfformio'r ddwy opera fis Medi – *Tosca* a *Candide* – a'r ddau gynhyrchiad yn hollol wahanol i'w gilydd. Un peth yr ydym wedi hen arfer ag o yw amserlen amrywiol – does dim un diwrnod yr un fath!

Roedd *Tosca* yn gynhyrchiad newydd ac yn cyfuno'r newydd a'r hen. Ydy, mae cloch yr eglwys yn canu a'r allor aur yn drwch o ganhwyllau; ond eto, drwy liniadur *Scarpia*, y mae *Floria Tosca* yn gwylio'r arteithio ar *Cavaradossi*. Wedyn *Candide* – cynhyrchiad bywiog gyda llawer o hwyl a dawnsio. Oes, mae angen gallu dawnsio i fod yn ganwr opera! Roedd ymateb y gynulleidfa yn hynod dda yng Nghaerdydd a phan oeddem ar daith yn Llandudno, Southampton a Bryste'n ogystal.



Mae byw allan o gês wrth deithio yn gallu bod yn anodd, ac yn hynny o beth mae'r torri ar y nifer o berfformiadau ry'n ni'n eu gwneud wedi agor y drws imi allu anturio ar gyfleon newydd. Un o'r rheiny yw ymweld bob yn ail ddydd Mawrth â charchar Abertawe a chysgodi'r Caplan Emma Roberts yno. Crynwraig yw Emma sy'n cynnal sesiynau myfyrio addolgar-dawel gyda'r carcharorion. Rydw innau wedi cael y profiad arbennig, ar eu cais hwy, o ganu iddyn nhw. Fe fyddaf hefyd o hyn allan yn cynnal sesiynau canu carolau, gyda'r gobaith o gynnal cyngerdd Nadolig yn y carchar. Rwy'n ffyddiog y cawn hwyl arni gan fod y dynion yno i gyd yn agored i gyfleon newydd. Mae'r profiad yn agoriad llygad imi'n sicr.


Braint oedd canu o flaen allor arall a chlywed cnul eglwys go iawn fis Hydref, a hynny yn angladd fy modryb yn San Pedr ar Ffordd Llanddwyn, Ynys Môn. Eglwys hynafol ydyw gyda ffenestri lliw hynod brydferth yn arddangos Jona a'r morfil a merch Pharo yn darganfod y baban Moses. Mae'r fynwent ar lecyn braf yn edrych dros y Fenai, draw am Gastell Caernarfon a mynyddoedd Eryri uwchlaw. Yno mae fy Nhaid a'm Nain hefyd yn gorwedd, ac ar y garreg fedd mae cwpled fy nhad, Tecwyn Owen:

Yn fy Nuw ymddiried wnaf,<br>
Yn ei eurwawr angoraf.

*Sian Meinir*

## O Gymru i Gainsville

*Dros yr haf treuliodd Wil Feeney, sy'n ddisgybl yn Ysgol Plasmawr, gyfnod yn Mhrifysgol Florida ar gwrs newyddiaduriaeth a chyfathrebu dan nawdd yr Urdd a chynllun Taith, Llywodraeth Cymru.*




Yn mis Mehefin eleni, roeddwn i yn un o'r pedwar wnaeth ennill lle efo'r Urdd, a dwi'n teimlo mor lwcus i fod wedi cael y profiad yma. Roedd o fel camu i fyd newydd sbon, byd prysur a chyffrous newyddiaduraeth chwaraeon a oedd yn canolbwyntio ar y **Florida Gators**, tîm chwaraeon Prifysgol Florida. Cawsom gyfle i roi cynnig ar bopeth – adrodd, sylwebu a hyd yn oed greu cynnwys digidol am chwaraeon.

Un o'r pethau cyntaf a sylwais arno oedd maint y campws. Roedd o'n enfawr! Cyrhaeddon ni'n hwyr ar nos Sul; felly, ar ôl y daith hir, doedd dim byd gwell na mynd i gysgu'n syth.

Dydd Llun, dechreuodd y diwrnod gyda chyflwyniadau a gemau torri'r iâ. Roedd dros 150 o fyfyrwyr o'r Unol Daleithiau a grŵp bach ohonon ni o Gymru. Ar ôl hyn roedd hi'n amser i mi ganolbwyntio ar fy arbenigedd dewisol sef 'Sports Reporting'. Y dasg gyntaf oedd adolygu uchafbwyntiau gêm pêl-droed Americanaidd y Gators yn erbyn LSU (Prifysgol Talaith Louisiana). Fe wnaethon ni ddadansoddi cyfweliad ôl-gêm gyda'r hyfforddwr, Billy Napier, ac yna torrais glipiau byr o'r uchafbwyntiau a recordio troslais, gan weithredu fel sylwebydd yn egluro sut y datblygodd y gêm. Fel llawer o Brydeinwyr, doeddwn i ddim yn gwybod llawer am bêl-droed Americanaidd, felly roedd rhaid i mi ofyn i'r Americanwyr yn fy ngrŵp beth i'w ddweud pan oedd rhaid i mi adrodd ar y gêm.

Dydd Mawrth, wnes i brofi fy newisiadau nesa. Yn 'Expectations in Sports Media', dysgais elfennau o beth sydd yn gwneud newyddiadurwr llwyddiannus, ac roedd pwyslais mawr ar greu cysylltiadau cryf gydag athletwyr a thimau. Yn 'Be the Voice', cefais flas ar fywyd sylwebydd chwaraeon. Dysgais am yr ymchwil a'r cynllunio y mae sylwebwyr chwaraeon yn ei wneud cyn pob gêm. Yn y prynhawn, roedd gen i wers 'Sports Reporting' eto, ac es i stadiwm 'The Swamp', stadiwm tîm pêl-droed Americanaidd enwog y Gators sy'n dal 88,548 o bobl! Wrth ffilmio'r adroddiadau, teimlwn fel pe bawn i'n newyddiadurwr chwaraeon go iawn!

Dydd Mercher, symudodd y ffocws i ochr ddigidol newyddiaduraeth chwaraeon. Yn 'Hacking it on YouTube', dysgais am algorithm y llwyfan a sut i sicrhau bod cynnwys yn cyrraedd cynulleidfa eang.

Un o uchafbwyntiau'r diwrnod oedd cael cyfle i gyfweld gydag Ahmad Black, cyn-chwaraewr Florida Gators a'r NFL.

Dydd Iau, y diwrnod olaf, cefais amrywiaeth o dasgau i'w cwblhau. Gwelsom uchafbwyntiau gêm bêl-fasged y Gators yn erbyn Houston, ac ysgrifennais grynodeb ohonynt. Yna, recordiais glip byr yn dadansoddi digwyddiad Caitlin Clark yn y gêm Indiana vs Connecticut, fel pe bawn i'n cyflwyno fy nghynllun podlediad fy hun. I gloi gwaith yr wythnos gyfan, ysgrifennais lythyr ataf fy hun yn y dyfodol, gan fyfyrio ar yr hyn roeddwn wedi'i ddysgu.

Trwy'r cyfle yma mi rydw i wedi gwneud ffrindiau oes a chofion bythgofiadwy.

Roedd y rhaglen yn cynnig blas gwirioneddol o fyd newyddiaduraeth chwaraeon, o adrodd traddodiadol i adrodd digidol modern. Mae wedi cadarnhau fy niddordeb brwd yn y maes ac wedi rhoi profiad gwerthfawr a fydd yn sail i'm huchelgeisiau gyrfaol yn y dyfodol. Diolch i Brifysgol Florida am drefnu'r cwrs a hefyd i'r Urdd a chynllun Taith  am roi'r cyfle arbennig yma i mi.

*Wil Feeney*

## Côr CF1

Ar Nos Wener 5 Rhagfyr am 7.30pm bydd Côr CF1 yn cynnal cyngerdd i lansio eu CD diweddaraf *Cerddwn Drwy'r Tywyllwch* yn Eglwys Teilo Sant yn yr Eglwys Newydd. Mae'r casgliad arbennig hwn o ganeuon yn adlewyrchu taith gerddorol Côr CF1 ers 2020 pan nad oedd cyd-ganu yn bosib. Mae pob darn ar y CD yn dwyn atgofion o eiliadau cofiadwy ar lwyfannau a digwyddiadau nodedig. Ceir yma amrywiaeth o alawon traddodiadol sy'n pontio cenedlaethau, trefniannau cyfoes sy'n dangos creadigrwydd, a gweithiau sy'n cyffwrdd y galon. Bydd Côr Bechgyn Hŷn Ysgol Plasmawr yn ymuno ag CF1 ynghyd â Siân Thomas a fydd yn cyflwyno a Beatrice Newman ar y sielo. .

Ar Nos Sul 7 Rhagfyr bydd Côr Ifor Bach, enillwyr Côr Cymru 2024, yn perfformio *Adre Dros 'Dolig* sy'n waith gwreiddiol gan Eilir a'r bardd toreithiog Grahame Davies. Mewn arddull sioe gerdd, mae *Adre Dros 'Dolig* yn gylch o ganeuon sy'n cynnig cipolwg unigryw ar fywydau pobl wrth iddynt deithio adref ar y dydd Gwener diwethaf cyn y Nadolig yng ngorsaf drenau Caerdydd Canolog. Mae'r gwaith yn ddathliad o fywyd, cariad, colled, a gobaith. Wedi'i osod yn erbyn cefndir prysur a bywiog Caerdydd Canolog, mae'n adlewyrchu'r amrywiaeth o brofiadau dynol a'r cysylltiadau sy'n ein huno ni i gyd yn ystod y Nadolig. Cynhelir y noson yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod y Garth am 7.30pm ar Nos Sul 7 Rhagfyr. Mae'r ddau gyngerdd yn cynnig profiadau cerddorol unigryw. Mae tocynnau ar gael o:
www.eventbrite.com.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yng nghyfarfod cyntaf tymor yr hydref, un o'n haelodau, Elisabeth Gilpin, fu'n ein diddanu wrth sôn am hanes diddorol y mannau lle bu'n chwarae yn blentyn yn ardal Rhosllannerchrugog. Dywedodd wrthym mai dim ond yn ddiweddarach y sylweddolodd beth oedd arwyddocâd hanesyddol rhai o'r llefydd hyn. Eglurodd Elisabeth sut y treiddiodd Cristnogaeth i Fangor-is-coed yn y bumed a'r chweched ganrif pan adeiladwyd mynachlog yno. Ond wedi brwydr Caer yn 613, hwyliodd Aethelfrith ar hyd afon Dyfrdwy gan ymosod ar y mynachdy a lladd 1,200 o fynachod.

Man arall aeth â bryd Elisabeth oedd Rhaeadr y Bers, lle nododd fod John Wilkinson wedi sefydlu gwaith haearn yn y pentref yn y ddeunawfed ganrif, a'i fod wedi cyflenwi arfau i'r rhyfel saith mlynedd rhwng Prydain a Ffrainc. Mynydd y Rhos oedd nesaf; yma roedd stad y teulu Wynn. Clywsom sut yr etifeddodd Syr Watkin Wynn (un o ddisgynyddion Catrin o Ferain) y stad, ei fod yn un o gefnogwyr Bonnie Prince Charlie ac iddo bron â chael ei gyhuddo o fod yn fradwr gan yr awdurdodau yn Llundain. Mawr yw ein diolch i Elisabeth am roi anerchiad mor ddiddorol a phersonol i ni.

Ardal ei fagwraeth oedd testun un arall o'n siaradwyr gwadd y tymor hwn, sef Peter Griffiths. Mewn awr ddiddan yn ei gwmni, cawsom ein tywys o amgylch Cwm Gwendraeth. Disgrifiodd y cyn-brifathro yr ardal lle roedd cefn gwlad ochr yn ochr â'r gweithfeydd glo. Yn ei ffordd ddihafal ei hun, daeth Peter â hanes ei blentyndod yn fyw o flaen ein llygaid. Bu'n sôn am ddylanwad arbennig yr ysgol a'r capel arno ef, ac eglurodd effaith cael ei fagu yng nghymuned glòs y cwm ar ei fywyd. Clywsom mai glöwr oedd ei dad, ac i'w fam weithio fel nyrs yn Llundain adeg y *blitz*. Cyfoethogwyd ei anerchiad gyda'i hiwmor a'i ddyfyniadau o farddoniaeth. Rydym yn ddiolchgar iawn i Peter am ddod atom ni, ac roedd llawer ohonom yn gytûn fod ei atgofion lliwgar yn ein hatgoffa ni hefyd o ddyddiau ein plentyndod.

Gair o werthfawrogiad sydd gennym i'n trydydd siaradwr gwadd y tymor hwn, sef Arfon Jones. Yn hanu o Ddyffryn Clwyd, clywsom sut yr astudiodd Arfon gerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor a'i fod yn chwaraewr sielo dawnus. Eglurodd sut y bu'n rhan o'r broses o ddiwygio'r Beibl Cymraeg Newydd yn yr wythdegau. Clywsom hefyd am ei waith pwysig yn rhoi beibl.net ar waith, adnodd electronig ar y dechrau sydd bellach ar gael mewn print. Ychwanegodd Arfon bod y pwyslais ar ystyr y geiriau a defnyddio iaith gyffredin yn beibl.net yn hytrach na chadw'n slafaidd at ramadeg y gwaith gwreiddiol. Clywsom ganddo hefyd am rai ystadegau diddorol, gyda gwaith ymchwil diweddar yn dangos cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n darllen y Beibl. Diolch, Arfon, am gyfoethogi ein dealltwriaeth o'ch gwaith arwyddocaol.

Wrth i ni edrych ymlaen at y Nadolig, pleser o'r mwyaf y tymor hwn oedd llongyfarch Mrs Mair Hughes, un o'n haelodau ffyddlon ers ein cyfarfod cyntaf ym 1992, sydd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 95 oed. Pen-blwydd hapus, Mair!

Mae croeso cynnes yn Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd ar foreau Mercher yn festri Bethel, Rhiwbeina. Cysylltwch â Beth Killen ar 02920 566508 am ragor o fanylion.

## Cyngerdd Cerddorfaol Ysgolion Cymraeg yn Neuadd Hoddinott - Bae Caerdydd

Cafwyd noson arbennig o gerddoriaeth fyw ar nos Wener 17 Hydref wrth i ddisgyblion o 11 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ar draws De Cymru ddod ynghyd i berfformio cyngerdd cerddorfaol yn Neuadd Hoddinott yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Gyda 160 o aelodau yn y gerddorfa, gwelwyd perfformiad yn llawn egni ac angerdd, gan ddenu ymateb brwd gan y gynulleidfa mewn cyngerdd oedd yn arddangosiad clir o dalent cerddorol ein pobl ifanc.

Mae'r prosiect, sydd bellach yn ei bedwaredd flwyddyn, yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion sy'n chwarae offerynnau cerddorfaol i brofi perfformio mewn lleoliad nodedig. Dyma'r drydedd flwyddyn i'r cyngerdd gael ei gynnal yn Neuadd Hoddinott, ac mae'r safon wedi parhau i godi flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Dan arweiniad Mr Rhydian Lake, Athro Cerddoriaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, mae'r prosiect wedi tyfu'n sylweddol, gan feithrin talentau ifanc a chreu cysylltiadau rhwng ysgolion ar draws De Cymru.

Cafodd y prosiect gefnogaeth gan grant Loteri Tŷ Cerdd, ac fe gynorthwyodd myfyrwyr o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru gyda'r ymarferion a'r cyngerdd yn ogystal.

Diolch i bob ysgol a gyfrannodd i'r prosiect, yn enwedig yr athrawon cerddoriaeth am eu gwaith caled a'u hymroddiad. Gobeithir y bydd llwyddiant y digwyddiad yn ysbrydoli mwy o ddisgyblion i ddechrau dysgu offeryn cerddorfaol yn y dyfodol.

Gellir gwylio'r perfformiad ar dudalen YouTube adran Cerddoriaeth Ysgol Plasmawr.

*Rhydian Lake* Ysgol Plasmawr



# Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2026

Cyfarchion o ddyfnderoedd ystafell gynllunio Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd! Os nad ydych chi wedi gweld eisoes, bydd yr eisteddfod eleni'n cael ei chynnal nos Wener 6 Chwefror 2026, yn Ysgol Glantaf, Ystum Taf, unwaith eto. Mae rhai newidiadau o ran yr amserlen gennym ar y gweill, yn seiliedig ar adborth gan gystadleuwyr, felly cadwch lygad allan am fwy o wybodaeth yn y misoedd nesaf.

Mae'r pwyllgor wedi bod wrth eu gwaith dros y misoedd diwethaf, yn dod o hyd i feirniaid gwaith cartref, a llwyfan. Ry'n ni'n falch o gyhoeddi mai'r beirniaid gwaith cartref eleni yw Gwennan Evans (rhyddiaith), Gruffudd Owen (barddoniaeth), ac Irfon Bennett (ffotograffiaeth). Cewch wybod am y beirniaid llwyfan yn y man!

Yn ôl yr arfer, bydd gofyn i chi gyflwyno eich gwaith cartref drwy'r porth cystadlu ar wefan yr eisteddfod, ac mae'r rheolau, a manylion gwobrau'r cystadlaethau, hefyd ar y wefan www.eisteddfodcaerdydd.cymru. Ewch ati i gystadlu, a chofiwch anfon eich ceisiadau erbyn 4 Ionawr 2026.

| **Cystadleuaeth** | **Testun a nodiadau** |
|---|---|
| Rhyddiaith blwyddyn 2 i 4 | Gwyliau |
| Rhyddiaith blwyddyn 5 i 6 | Perthyn |
| Rhyddiaith blwyddyn 7 i 9 | Tymor |
| Rhyddiaith blwyddyn 10 i 13 | Cyfoeth |
| Y Fedal Ryddiaith | Mur/Muriau. Darn o ryddiaith heb fod dros 2,000 o eiriau. Cystadleuaeth agored i bawb. |
| Llên meicro | Cyfle. Darn neu gasgliad o lên meicro heb fod yn fwy na 500 gair. |
| Adolygiad | Adolygiad o unrhyw gyfrol Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2025 heb fod dros 1,000 o eiriau |
| Rhyddiaith y dysgwyr | Taith |
| Barddoniaeth blwyddyn 2 i 4 | Y Parc |
| Barddoniaeth blwyddyn 5 i 6 | Y diwrnod mawr |
| Barddoniaeth blwyddyn 7 i 9 | Breuddwyd |
| Barddoniaeth blwyddyn 10 i 13 | Sŵn |
| Y Gadair | Cerdd neu ddilyniant o gerddi caeth neu rydd heb fod dros 75 o linellau ar y testun 'Egin/ Egino'. |
| Triban | Triban sy'n cynnwys unrhyw enw lle o fewn Dinas a sir Caerdydd. |
| Englyn | Cyllell |
| Cerdd rydd | Stori |
| Cerdd heb fod dros 20 llinell ar unrhyw fesur caeth | Adenydd |
| Cyfansoddi geiriau emyn | Adenydd |
| Barddoniaeth y dysgwyr | Llwybr |
| Tlws yr Ifanc | Gwaith llenyddol. Cerdd gaeth neu rydd neu'n ddarn o ryddiaith, ar y testun 'Addewid'. Yn agored i unigolion 25 oed ac iau yn unig. |
| Ffotograffiaeth cynradd | Dathlu |
| Ffotograffiaeth uwchradd | Dathlu |
| Ffotograffiaeth agored | Dathlu |

# Melin 2025-26

Agorwyd rhaglen Melin ar gyfer 2025-26 gyda noson ddiddorol iawn yng nghwmni Aled Eirug fu'n siarad am ei gofiant am Dafydd Elis-Thomas, 'Nation Builder'.

Cafodd Aled ei holi'n drwyadl am gynnwys ei lyfr gan Aled ap Dafydd a chafodd y gynulleidfa gyfle i ofyn cwestiynau iddo yn ystod ail hanner y noson.

Cafwyd mewnwelediad difyr gan yr awdur i natur y dyn, y gwleidydd a'r Cristion; un a gafodd ei ystyried yn fradwr gan rai ac yn 'maverick' gan eraill. Doedd dim amheuaeth wedi'r sesiwn holi ac ateb bywiog fod Dafydd yn gymeriad athrylithgar, lliwgar a direidus; yn gawr o wleidydd wnaeth gyfraniad aruthrol i wleidyddiaeth Cymru trwy gydol ei fywyd.

Codwyd swm anrhydeddus ar gyfer Hosbis y Ddinas yn ystod y noson.

Gwerthodd y tocynnau ar gyfer noson yng nghwmni Eden yng Nghlwb Rygbi'r Eglwys Newydd ar nos Wener, 31 Hydref, yn gyflym iawn.

# Ysgol Glan Morfa




Bu'n gyfnod prysur yn Ysgol Glan Morfa, gyda nifer o weithgareddau cyffrous yn cefnogi dysgu a datblygiad ein disgyblion.

Yn ddiweddar, croesawyd y ***Bumbles* o Goed y Mêl – *2B Enterprising*** ynghyd â ***Capital Law*** i gynnal gweithdy arbennig i ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2. Trwy weithgareddau hwyliog a straeon ysbrydoledig, dysgodd y plant am adeiladu tîm ac arweinyddiaeth. Roedd y sesiwn yn llawn egni ac yn meithrin hyder a chydweithio – diolch o galon iddynt am eu brwdfrydedd a'u hymweliad gwerthfawr.

Daeth **y Gwasanaeth Tân** i'r ysgol i siarad â disgyblion Blynyddoedd 1 i 6 am beryglon tân a sut i gadw'n ddiogel. Gwrandawodd y plant yn astud, ac roedd yr ymweliad yn brofiad addysgiadol a phleserus i bawb. Diolch yn fawr iddynt am rannu eu gwybodaeth ac am eu hymroddiad.

Diolch yn fawr i'r holl rieni a gwarcheidwaid a fynychodd Noson y Cwricwlwm i gwrdd ag athrawon eu plant. Roedd yn wych gweld cynifer yn bresennol a chael rhannu beth sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn.

Daeth *Streetwise* i mewn i weithio gyda blwyddyn 6 ar ddiogelwch personol, gwneud penderfyniadau craff, ac ymwybyddiaeth mewn sefyllfaoedd bob dydd — gan gynnwys aros yn ddiogel mewn mannau cyhoeddus, delio â phwysau cyfoedion, ac adnabod ymddygiad bygythiol. Roedd ein disgyblion yn ardderchog drwy gydol y sesiynau - yn ymroddedig, yn ystyriol ac aeddfed eu hymatebion.

Llongyfarchiadau i'n holl ddisgyblion a etholwyd i'n hamrywiol gynghorau ac i Senedd yr Ysgol. Hyderwn y bydd pob un ohonynt yn gwneud gwaith gwych ac yn defnyddio eu llais er gwell.

Rydym hefyd wedi cynnal **bore coffi gyda'r Tîm Cynhwysiant**, a hyfryd oedd gweld cynifer o rieni'n cymryd rhan mewn sgyrsiau adeiladol gyda'r tîm. Bydd rhagor o foreau coffi yn cael eu trefnu dros y flwyddyn.

Diolch arbennig i **Simarmeet Singh o'r *Gurdwara*** am ddod i siarad â'n disgyblion am Siciaeth. Roedd y sesiwn yn gyfle gwerthfawr i'r plant ddysgu am grefydd, diwylliant a chymuned, ac i ofyn cwestiynau diddorol. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser a'r mewnwelediad a rannwyd gyda ni.




Mae'r gweithgareddau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad Ysgol Glan Morfa i ddarparu profiadau cyfoethog ac amrywiol i'n disgyblion – ac rydym yn edrych ymlaen at lawer mwy dros y tymor!



# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

## Yr Athro E. Wyn James



**Saunders Lewis a Phenarth, y lle a newidiodd hanes Cymru – ddwywaith!**

Mae 2025 yn ddeugain mlynedd oddi ar farw Saunders Lewis (1893–1985). Mae hi hefyd yn ganmlwyddiant sefydlu Plaid Cymru, y blaid wleidyddol y bu gan Saunders ran mor amlwg yn ei hanes cynnar. Rhwng popeth, felly, braidd yn anghyfrifol ar ein rhan fyddai peidio â rhoi sylw i hyn yn y golofn hon cyn diwedd 2025, o gofio am gysylltiadau agos Saunders Lewis â dalgylch *Y Dinesydd*.

Brodor o gyffiniau Lerpwl oedd John Saunders Lewis. Fe'i ganed yn Wallasey ar Benrhyn Cilgwri (*Wirral*) ar 15 Hydref 1893, lle'r oedd ei dad, Lodwig Lewis (1859–1933) – a ddeuai o ardal Cwm Gwendraeth yn sir Gaerfyrddin – yn weinidog un o gapeli niferus y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig ar lannau Mersi.

Ganed Saunders Lewis i deulu a oedd ymhlith 'pendefigion' bywyd diwylliannol a chrefyddol Cymru. Roedd ei fam, Mary Margaret Thomas, a fu farw ar 30 Medi 1900 pan oedd Saunders yn ifanc iawn, yn ferch i Dr Owen Thomas (1821–91), pregethwr o fri ac awdur pwysig. Bu ef am flynyddoedd yn weinidog Eglwys Princes Road y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yn ardal Toxteth yn Lerpwl, eglwys yr oedd ei chapel anferth yn rhyw fath o 'eglwys gadeiriol' i Gymry Lerpwl a'r tu hwnt.

Tyrrai'r Cymry i Lerpwl yng nghyfnod magwraeth Saunders Lewis. Mewn cyfweliad ag Aneirin Talfan Davies a deledwyd ym mis Mai 1960, dywedodd Saunders ei fod yn 'weddol siŵr fod 'na rywbeth o gwmpas can mil o Gymry Cymraeg yn Lerpwl drwy holl gyfnod 'machgendod i', a bod o leiaf hanner y rheini yn uniaith Gymraeg. Yr oedd, meddai, 'enethod yn dyfod atom ni i'n tŷ ni […] yn forynion o Sir Fôn a Sir Gaernarfon, yn Gymraesau uniaith Gymraeg, [… ac yn] mynd yn ôl i Gymru gyda chyn lleied o Saesneg ag y daethon' nhw i Loegr.'

Ond perthynai Saunders i ddau fyd ar lannau Mersi, oherwydd er mai Cymraeg oedd iaith yr aelwyd a'r capel, Saesneg oedd iaith ei addysg, a'r Saesneg a'i llenyddiaeth a aeth â'i fryd yn gynyddol. Ymaelododd ym Mhrifysgol Lerpwl yn 1911 i astudio ar gyfer gradd yn y Saesneg. Ond yn enwedig pan oedd yn filwr ar y Cyfandir yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, bu newid mawr. Aeth ei fryd fwyfwy i gyfeiriad y Gymraeg, ac yn 1921, fe'i gwelwn yn dod i Gymru ar gyfer ei swydd gyntaf, sef bod yn gyfarwyddwr cynllun a ariennid gan Sefydliad Carnegie i ddatblygu llyfrgelloedd gwledig yn sir Forgannwg.

Bu yn y swydd honno rhwng Gorffennaf 1921 a Medi 1922, gan fyw am y cyfan bron o'r amser yn 10 Hamilton Street, gerllaw Gerddi Sophia yng Nghaerdydd. Yno y cwblhaodd ei ddrama Gymraeg gyntaf, *Gwaed yr Uchelwyr* (a lwyfannwyd am y tro cyntaf yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, ym mis Mai 1922) ac yno hefyd y dechreuodd ysgrifennu un o'i ddramâu gorau, *Blodeuwedd*.

Cafodd ei benodi'n ddarlithydd yn Adran Gymraeg y Coleg Prifysgol newydd yn Abertawe yn 1922, ond collodd ei swydd yno oherwydd ei ran yn llosgi'r Ysgol Fomio ym Mhenrhyn Llŷn yn 1936. Bu'n byw wedyn o 1938 ymlaen yng nghyffiniau Aberystwyth heb swydd sefydlog, gan ei gynnal ei hun a'i deulu trwy ddysgu, ffermio a newyddiadura, nes iddo gael ei benodi'n ddarlithydd yn Adran y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol yng Nghaerdydd yn 1951 gan bennaeth yr adran honno, ei gyfaill agos, yr Athro Griffith John Williams (1892–1963).

Dechreuodd ar ei swydd newydd yng Ngholeg Caerdydd yn Ionawr 1952, ac adeg y Pasg y flwyddyn honno aeth i fyw i 158 Westbourne Road ym Mhenarth. Ymddeolodd o'i swydd yn y Brifysgol yn 1957, yr un pryd â'r Athro G. J. Williams, ond parhaodd i fyw yn yr un tŷ ym Mhenarth weddill ei fywyd. Hoffai ef a'i wraig, Margaret, grwydro ar hyd y clogwyni i gyfeiriad Trwyn Larnog. Dyna gefndir ei gerdd fach hyfryd 'Lavernock', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 1953; a bu ei ardd ym Mhenarth yn ysbrydoliaeth i rai o'i gerddi eraill.

Bu farw Saunders Lewis yn Ysbyty'r Santes Gwenfrewi (*St Winefride*) ym Mhontcanna ar 1 Medi 1985. Cynhaliwyd ei offeren angladdol yn Eglwys Gadeiriol Metropolitan Dewi Sant yn Heol Siarl yng nghanol Caerdydd, ac fe'i claddwyd ym Mynwent Penarth. Cludwyd ei arch gan Meredydd Evans, R. Geraint Gruffydd, Dafydd Iwan a Dafydd Wigley, rhai o arweinwyr amlwg y mudiad cenedlaethol a'r bywyd diwylliannol Cymraeg – a'r union ddewis hwnnw'n ddiddorol ac yn arwyddocaol.

Fel yr awgrymwyd eisoes, roedd cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf yn drobwynt mawr yn hanes Saunders Lewis. Cyn hynny, byddai'n iawn ei ystyried yn hedonydd rhamantaidd ac yn fwy o Sais nag o Gymro ar lawer ystyr. Dywed amdano ei hun tua dechrau ei gyfnod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Lerpwl mai 'fy unig uchelgais oedd ennill rhan a lle yn llenyddiaeth Saesneg'. Nid oedd Cymru'n ddim iddo bryd hynny, meddai.

Tua'r adeg honno y dywedodd ei dad wrtho, ''Drychwch chi, Saunders, ddaw dim byd ohonoch chi nes dowch chi 'nôl at eich gwreiddiau.' A dyna'n union a welwn yn digwydd iddo yn ystod ail ddegawd yr 20fed ganrif, oherwydd yn y cyfnod hwnnw, yn enwedig dan ddylanwad rhai awduron Gwyddelig a Ffrengig, ei ddarpar-wraig Margaret Gilcriest (a briododd yn 1924), a chofiant T. Gwynn Jones i Emrys ap Iwan, daeth yn genedlaetholwr Cymreig a oedd bellach am ysgrifennu yn y Gymraeg ac 'ennill rhan a lle' yn y diwylliant Cymraeg.

Yn yr un cyfnod, cofleidiodd Gatholigiaeth – er na ddaeth yn ffurfiol yn aelod o Eglwys Rufain tan Chwefror 1932. Dywedodd ei gyfaill, y llenor D. J. Williams, un o'r rhai a garcharwyd am naw mis gyda Saunders Lewis am losgi'r Ysgol Fomio, ei bod yn ymddangos fod tröedigaeth Saunders at genedlaetholdeb Cymreig ac at Gatholigiaeth wedi digwydd yn gyfredol. Ac un peth sy'n drawiadol am Saunders Lewis yw cysonder y weledigaeth Gristnogol Gymreig sy'n gyrru ei feddwl a'i waith weddill ei fywyd.

Roedd cofleidio Catholigiaeth yn rhan o'r 'dod yn ôl at ei wreiddiau' yn hanes Saunders Lewis. Er mor rhyfedd yw gosodiad o'r fath ar un olwg, oherwydd y gwahaniaethau pwysfawr rhwng Catholigiaeth a Methodistiaeth Galfinaidd, rhaid cofio fod diwinyddiaeth ryddfrydol ar dwf sylweddol yn enwad y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yn nechrau'r 20fed ganrif. Roedd y ddiwinyddiaeth honno yn bwrw amheuaeth ar rai o hanfodion y ffydd Gristnogol uniongred a hanesyddol, megis Duwdod Iesu Grist a'i atgyfodiad corfforol. Nid yw'n syndod, felly, weld Saunders Lewis yn cael ei ddenu at ffurf ar Gristnogaeth a oedd yn nes at yr hyn a arddelai sylfaenwyr enwad y Methodistaidd Calfinaidd na'r rhyddfrydiaeth a oedd ar gynnydd yn yr enwad hwnnw ar y pryd.

Ysbrydolwyd ei nofel *Merch Gwern Hywel* (1964) gan hanes carwriaeth ei hen nain a'i hen daid Methodistaidd ar ddechrau'r 19eg ganrif, a diddorol ei weld mewn llythyr ychydig cyn cyhoeddi'r nofel yn dweud y byddai pobl yn meddwl o'i darllen ei fod wedi dychwelyd at y Methodistiaid. 'Nid dyna'r gwir', meddai; 'Nes i'r gwir ydy nad ydwyf i erioed wedi eu gadael.' Ac yn sicr, rhwydd fyddai dychmygu ei hynafiaid yn enwad y Methodistiaid Calfinaidd yn amenio'n frwd sylw fel hwn gan Saunders yn ei 'Lythyr Ynghylch Catholigiaeth' yng nghylchgrawn *Y Llenor* yn 1927:

> Arbenigrwydd Cristnogaeth erioed a fu rhoi bri neilltuol ar bechod; codi pechod i'r fath ogoniant a phwysigrwydd fel yr oedd yn rhaid i Grist fod yn neb llai na Duw, a hwnnw'n marw fel dyn er mwyn diorseddu pechod.

Byrdwn cyson gan Saunders Lewis o gyfnod ei dröedigaeth ymlaen oedd mai problem *ysbrydol* yw problem waelodol Cymru ac mai adfywiad ysbrydol, i'w deffro o'i materoliaeth, yw'r unig wir ateb i'w phroblemau. Ac yn y cyd-destun hwnnw, mae'n arwyddocaol ei weld yn hawlio mai Diwygiad Methodistaidd y 18fed ganrif 'a ailgreodd genedl Cymru' a bod hanes yr adfywiad ysbrydol hwnnw yn 'stori aileni cenedl'. Nid rhyfedd, felly, yw gweld Saunders Lewis yn rhoi llawer o sylw i fawrion Methodistaidd fel Williams Pantycelyn ac Ann Griffiths.

(*I'w barhau*)

## Dathlu Wcráin yn y Gymraeg

Ers dechrau'r rhyfel yn Wcráin, cynhelir dathliad o ddydd annibyniaeth Wcráin ar 24 Awst yn flynyddol gan Glwb Pêl Foli Traeth Parc Fictoria, Caerdydd.



Siaradodd Timur Pashchenko Timpas, sy'n 16 oed, â'r dorf yn Gymraeg. Mae'n byw yn Llanilltud Fawr ym Mro Morgannwg, a'i gartref yn wreiddiol oedd Kyiv. 'Mae pobl yn dod at ei gilydd i ddathlu cymuned Wcráinaidd Caerdydd a Bro Morgannwg drwy ganu, dawns a bwyd,' meddai.

Mae Timur wedi bod yn dysgu Cymraeg ers Mai 2022. Cafodd rai gwersi yn yr ysgol, a gan iddo fwynhau, aeth ar ei liwt ei hun i ddysgu drwy **Duolingo**. Dywedodd, 'Rwy'n gobeithio bydd mwy o bobl yn siarad Cymraeg yng Nghymru.' Mae'n hoff o'r gerdd 'Nid Oes Angen Bod yn Berffaith' gan Bronwen Lewis, ac yn hoff o wylio **Bwrdd Twristiaeth Hansh** ar **YouTube** a gwrando ar fiwsig Cymraeg, gyda Pepe Lé Pew a Dafydd Iwan (a'i gân 'Yma o Hyd') ymhlith ei hoff artistiaid.

Byddai Timur wrth ei fodd o gael mwy o gyfle i siarad Cymraeg.

*Iestyn Rhys Davies*

## NEWYDDION YCHWANEGOL Y DINESYDD

Weithiau mae gormod o ddeunydd yn dod i law i'w gynnwys mewn rhifyn cyfredol. O ganlyniad mae'n rhaid cwtogi ar rai erthyglau. Mae'r cyfraniadau canlynol i'w gweld ar ein gwefan www.dinesydd.cymru. Y mis hwn ychwanegwyd adroddiad llawnach am Gôr CF1 a manylion am ddarlith ac oedfa olaf capel y Tabernacl Llanfaches, lle sefydlwyd yr achos ymneilltuol cyntaf yng Nghymru yn 1639,

# Bwytai Merch y Ddinas



## *Diwrnod yn y Ddinas*

**Lowri Haf Cooke**

Dros ddiod yn ddiweddar yn sesiwn Gymraeg yr Albany (bob nos Lun, rhwng 7 a 9, os hoffech alw heibio), ces i gyngor i ymweld â sawl bwyty dinesig. Un ohonynt oedd *Pierogi*; stondin fwyd Pwylaidd y farchnad ganolog, a arweiniodd at brofiad i sawru – ac i'm swyno.

Wrth dderbyn yr argymhelliad, dyma fi'n oedi i ystyried pryd oedd y tro diwethaf i mi ymweld â'r farchnad ganolog. Nes i wrido wrth sylweddoli nad o'n i wedi bod yno ers tro – nid i eistedd lawr am damaid i'w fwyta, beth bynnag. Mae'n hwb ac yn ganolfan ac yn groesffordd gyfleus iawn, pan fydd angen joch neu chwistrelliad sydyn o fywyd y ddinas. Mae hefyd wrth gwrs yn borth i hanes hynod y ddinas, sy'n rhannol egluro 'ysbryd' a chymeriad – ac yn wir, ein atyniad at – yr hen adeilad. Rhai ffeithiau sy' wastad yn handi, yng nghwmni newydd-ddyfodiaid neu ymwelwyr â'r ddinas; o'i blaen ar Heol Fair y crogwyd yr arwr gwerin Dic Penderyn, a waeddodd yn daer ym mis Awst 1831, 'O Arglwydd, dyma gamwedd!', mewn protest i anghyfiawnder dybryd ei ddedfryd, yn sgil Gwrthryfel Merthyr. Yn wir, ar safle'r farchnad ganolog y safodd carchar Caerdydd rhwng canol y 16eg Ganrif tan 1832 – a bu elfen o farchnad yn bresennol yno ers yr 17eg Ganrif. Yna ym 1891, agorwyd y 'farchnad ganolog' ar ei newydd wedd, wedi'i dylunio gan y pensaer William Harpur.



Mae'n wir, dwi di sgwennu droeon am y farchnad yn y golofn hon, a'i phwysigrwydd fel canolfan ddinesig. Dwi hyd yn oed wedi bod ar y Newyddion -- mewn ymateb i ddatblygiadau diweddar – yn disgrifio'r adeilad fel meicrocosm o Gaerdydd, wrth iddi ffynnu, dirywio, a ffynnu unwaith eto. Ond er yn y misoedd diwethaf i mi wibio heibio stondinau'r llawr gwaelod, mewn brys mae'n siŵr i gyfarfod, neu i ddianc rhag y glaw (gan ryfeddu, gyda llaw, at hyd y linell o flaen stondin Cardiff Bakestone – sy'n gwerthu pice ar y maen am 60c yr un, neu 10 am £5.50, sy'n dipyn o gystadleuaeth bellach i'r wal o 'Welsh Cakes' ar y stondin fara draddodiadol!), rhaid dweud na fues i fyny grisiau i Ffwrnes am sbel, am glonc dros bitsa Jiawl Bach am bris ardderchog. Dyma addewid cyhoeddus felly, i wneud yn iawn am hynny ym mis Tachwedd! Ond pasio'r arogl 'pitsa ffwrn dân' bu'n rhaid gwneud ar ddiwedd mis Hydref wrth nadreddu fy ffordd tuag at stondin Pierogi.

Saif y stondin uwchben y grisiau, ar begwn Heol Fair y farchnad ganolog. Ac efallai taw dyna paham na fûm i yno ers i Pierogi agor yn 2022, gan fy mod i'n tueddu i gamu'n syth draw at bitsa Ffwrnes. Mudodd y cwmni i'r farchnad yn wreiddiol o'r Sblot, ble roedd gan y perchennog, Chris, fwyty Pwylaidd o'r enw *My Place at Broadway*. A'r saig fwyaf poblogaidd ar y fwydlen, o bell ffordd yn ôl y sôn, oedd 'bwyd cysur' y twmplenni 'pierogi'. O flaen ffenest y stondin roedd 'na fwrdd du llawn cynigion, sy'n newid yn ddyddiol mae'n debyg. Ac er i mi dderbyn yr argymhelliad fod y pierogi llysieuol yn rhagorol, rhaid dweud i mi ddechrau glafoerio wrth weld y geiriau '*beef brisket*'. Fel un oedd erioed wedi bod i wlad Pwyl o'r blaen, ac yn y niwl ynglŷn â beth yn union oedd pierogi, nes i dalu am faint bychan (£7.95), sef saith pierogi ffres yn ginio ysgafn, gan gymryd sedd ger y balconi i aros yn eiddgar.

Oes 'na gyrchfan bwyta tybed sydd â golygfa well yng Nghaerdydd? Danfonwch eich cynigion ataf ar gefn cerdyn post! Oherwydd hyd yn oed cyn i mi gael brathiad o'r danteithion o wlad Pwyl, ges i '*madeleine moment*', chwedl Marcel Proust, wrth brofi taith nôl trwy amser... i 2010! Dyma gofio mwyaf sydyn, wrth synfyfyrio ar y stondinau islaw, mod i wedi bod yn yr union fan honno yn cynhyrchu rhaglen ddogfen i BBC Radio Cymru wnaeth newid fy mywyd.

Maddeuwch y fath ddrama, ond wir i chi, yn y fan a'r lle, diflannodd y pymtheng mlynedd diwethaf mewn chwinciad. Am bythefnos cyfan, ym mis Medi'r flwyddyn honno, es i ati i recordio'r seinlun 'Diwrnod yn y Ddinas'. Mae'n swnio'n boncyrs, dwi'n gwbod; pythefnos gyfan i grisialu un diwrnod, ond treuliais b'nawn cyfan o'r cyfnod hwnnw yn recordio seiniau y farchnad ganolog. Cofiais Susan, o'r stondin *Danish Bacon* (ble saif stondin goffi Hard Lines erbyn hyn), wrth i mi ei recordio hi'n hel atgofion wrth iddi sleisio'i chig moch, gan rannu sut iddi gwrdd â'i gŵr – cigydd arall, o'r stondin ffagots ym mhen pella'r llawr gwaelod! A chofiais hefyd yr hwyl o recordio llais stondinwr ffrwythau a llysiau Sullivan's yn gweiddi '*bag o bananas a pownd*' ar ddiwedd p'nawn.

Teithiais i a fy 'stereo mic' i bobman y pythefnos hwnnw, gan gofnodi popeth, o lif Nant Lleucu ym Mharc y Rhath ar doriad gwawr, i chwerthiniad iach Dafydd James ger y Billy Banks ym Mhenarth wedi machlud haul. Fe gofia' i'r hwyl o orweddian ar fy mol yn recordio seiniau deffro ffrind yn Lecwydd am chwech y bore, ac anthem Lady Gaga ar lawr dawns DJ Esyllt yng Nghlwb Ifor Bach heb sôn am atgofion hiraethus y diweddar Owen John Thomas o seiniau

gweithfeydd dur Tremorfa, a chloc neuadd y ddinas bob chwarter awr; seiniau trawiadol, a nodweddiadol, a hanesyddol (erbyn hyn) o Gaerdydd, a arferai deithio'n bell dros y ddinas, yn dibynnu ar gyfeiriad y gwynt. Dysgais gymaint am fy ninas wrth oedi i wrando'n astud arni, a chanolbwyntio ar leisiau a seiniau a sgyrsiau o bob math. Cywasgais 24 awr o seiniau i slot 27 munud o radio, a ddarlledwyd ar BBC Radio Cymru ar b'nawn Sul Medi 26. Ro'n i'n eithriadol o falch o 'ngwaith, a'r canlyniad, ond wnes i wir ddim disgwyl rhagor o'r profiad – tan i mi dderbyn ebost ar fore Llun, gan Elinor Wyn Reynolds, golygydd llyfrau Cymraeg Gwasg Gomer. Roedd hi wedi'i chyffroi'n lân gan raglen o'r fath, ac fe estynnodd wahoddiad i mi sgrifennu teithlyfr am ddinas Caerdydd.

Pymtheng mlynedd yn ddiweddarach, ac mae'r gweddill yn hanes! Oes gen i gyngor i'w rannu, o brofiad o'r fath yna? Oes: dilynwch eich angerdd, byddwch yn driw i chi'ch hun, a pheidiwch ofni bod yn wahanol i bawb arall. Ond yn bwysicach, cofiwch wrando yn bennaf ar eich greddf – y llais bach mewnol hwnnw, sydd (serch sgrechfeydd byddarol cymdeithas o'n cwmpas) yn ein llywio ni'n dawel ar hyd ein llwybrau unigryw ein hunain.

Dwi'n falch iawn hefyd i mi wrando ar gyngor Monika, o sesiwn Gymraeg yr Albany, sef y person a'm siarsiodd i brofi 'pierogi' hudol y farchnad yn y farchnad yn y lle cyntaf! Cyflwynwyd y twmplenni brisged cig eidion ffres mewn blwch hynod atyniadol, ar y cyd â saws hufen a phupur a dail sbigoglys tymhorol. Roedd y blas yn anfarwol, ac wedi profiad mor llesmeiriol, ges i egni o'r newydd i ail-gydio â'r daith o ddilyn fy llwybr fy hunan.

**Pierogi, Stondin 213-217, Llawr Uchaf Marchnad Ganolog Caerdydd CF10 1AU**

***Gwledd, Amser Nadolig, Bwytai Cymru,* a *Canllaw Bach Caerdydd*; i gyd ar gael i'w benthyg o lyfrgelloedd Caerdydd, neu i'w prynu o'ch siop lyfrau Cymraeg leol.**

## Ail-greu Llwybr Pererindod i Ben-rhys

Daeth cwlt y Forwyn Fair o bwys yn niwedd yr Oesoedd Canol. Tyfodd nifer o lwybrau Pererindod ledled Ewrop, ac roedd un o'r rhain i Ben-rhys yn y Rhondda. Roedd cerflun y Forwyn o Ben-rhys mor bwysig nes i'r cerflun gael ei gludo i Lundain i'w losgi yn ystod y Diwygiad Protestannaidd, ynghyd â cherflun y Forwyn o Walsingham a cherflun y Forwyn o Doncaster.



Does neb yn gwybod pryd yr ymddangosodd y Forwyn o Ben-rhys gyntaf. Dywedir iddi ymddangos yn hudolus mewn coeden dderwen ac na allai tîm o geffylau ei llusgo i ffwrdd. Yn yr Oesoedd Canol roedd maenor Pen-rhys yn eiddo i fynachlog Llantarnam, i'r gogledd o Gaerleon. Roedd tân mawr yn yr abaty ym 1398, ac rwy'n credu bod y cerflun wedi ymddangos yn fuan wedyn. Wedi'r cyfan, roedd angen i'r abaty godi arian ar gyfer ailadeiladu, ac roedd darparu ar gyfer y Pererinion yn ddull hawdd o godi arian.

Un o golledion mawr y Diwygiad Protestannaidd oedd cofnodion y mynachlogydd. Ychydig iawn, os o gwbl, o gofnodion mynachlogaidd sydd ar ôl yng Nghymru. Ac mae'r rhan fwyaf o'r hyn rydyn ni'n ei wybod yn dod o waith y beirdd, yn enwedig beirdd Morgannwg.

Maen nhw'n sôn am gario cannwyll yn anrheg i'r Forwyn, ac am ddringo i Ben-rhys ar eu gliniau. Os byddech chi wedi dringo i Ben-rhys, byddech chithau ar eich gliniau hefyd!

Maen nhw'n sôn am ferched teulu Mathew o Lys Radur yn gofalu am y cleifion yn eu parlwr. Mae Llys Radur ychydig dros filltir o Eglwys Gadeiriol Llandaf. Mae hyn yn awgrymu y byddai'r pererinion wedi cychwyn o Eglwys Gadeiriol Llandaf ar ôl un o wasanaethau'r prynhawn. Byddai llawer o'r pererinion wedi bod yn forwyr. Nid rhyfedd, felly, mai un o enwau'r Forwyn o Ben-rhys oedd *Stella Maris*, Seren y Môr.

Ddeugain mlynedd yn ôl, wedi i ni ddilyn cwrs ar lwybrau hynafol, dechreuodd grŵp ohonom fapio llwybrau'r pererinion i Ben-rhys. Fel y *Camino de Santiago* yng ngogledd-orllewin Sbaen, mae sawl llwybr i Ben-rhys. Mae un yn cychwyn yn Abaty Llantarnam, eraill yn Aberhonddu a Margam. Canolbwyntiais ar y llwybr o Landaf i Ben-rhys.

Mae ail-greu llwybr braidd fel llun sy'n cysylltu'r dotiau gan blentyn. Rwyf eisoes wedi sôn am deulu Mathew o Lys Radur. I'r gogledd o Radur mae cyffordd o'r enw Groes-wen – mae'r Ysgol Gynradd Gymraeg newydd wedi'i henwi ar ei hôl. Y dot nesaf yw'r Groes-faen. Mae sylfaen y groes yn dal i sefyll y tu allan i ddrws yr eglwys.

Roeddwn i'n ddigon ffodus i ddod o hyd i hen fap o Lantrisant. Dangosodd y map yr hyn sydd bellach yn 'The Model House' yn Llantrisant fel dau adeilad, ffatri menig a thafarn y Swan, a rhyngddynt Lwybr y Pererin. I'r gogledd o Lantrisant mae'n fwy anodd. Ond mae gan lawer o'r ffermydd 'Groes' yn eu henwau.

Cerddodd ein grŵp y llwybr newydd, a dyna oedd diwedd y gwaith, meddyliais, nes i Gynghorydd Radur, Helen Lloyd Jones, holi ynglŷn â llwybrau hynafol. Dywedais ein bod ni'n eistedd ar ben llwybr hynafol i Ben-rhys, ac ar unwaith fe ymrôdd hi i'r gwaith yn frwdfrydig.

Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, gyda chymorth Swyddogion Llwybrau Caerdydd a Rhondda Cynon Taf, rydym wedi dod i derfyn ein gwaith ni gyda'r prosiect. Mae'r un filltir ar hugain wedi cael eu harwyddo, ac mae'r camfeydd wedi eu trosi'n gatiau. Rydym nawr yn trosglwyddo'r prosiect i Gaerdydd, Rhondda Cynon Taf a'r Eglwys Gadeiriol.

*Allan Cook*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## TABERNACL, YR AIS

**Geni**

A hithau'n agosáu at yr Adfent, priodol dathlu geni nifer o blant i aelodau a chyfeillion yr eglwys ar draws y flwyddyn:

Alfie Michael Rhys Forrester, mab cyntaf i Angharad a Peter ac ŵyr i Helen a Rhys Jones.

Talbot Thomas Preece, ail fab i Daniel a Lucy a phumed ŵyr i Helen a Ceri.

Siôn Byfield, mab cyntaf i Nia a James, wyres i Sian a Rhodri Williams, a gor-ŵyr i'r Doctor Glenys Lindsay.

Bili Mererid, merch gyntaf i Hannah Williams a James McClean, wyres arall i Sian a Rhodri, a gor-wyres i'r Doctor Glenys Lindsay.

Lleucu Ifan Gruffydd, merch fach i Elen a Deio ac wyres i Euros Rhys a Sian Rhiannon.

**Bedyddio**

Bore Sul 21 Medi roedd y gynulleidfa yn niferus, a theuluoedd, ffrindiau ac aelodau'r eglwys yn eiddgar i dystio i gyffes gyhoeddus Lucie Rhiannon, Rhys Thomas, a Mia a Gethin Owen. Yn ôl Noa Evans: 'Fel eglwys, diolchwn i Rosa am ei gwaith yn llywyddu oedfa gofiadwy iawn, ac am ei hymdrechion wrth ysbrydoli ein hieuenctid i gymryd y cam pwysig hwn yn nhaith eu ffydd.'

**Nodi pedwar ugain mlynedd o obaith yng Nghymru**

Ar 17 Medi cawsom noson arbennig yn y Tabernacl yn nodi 80 mlynedd o obaith trwy waith Cymorth Cristnogol ac edrych tuag at y dyfodol. Roedd y noson yn cynnwys cerddoriaeth ddathlu ar yr organ gan Dr Huw Thomas; gweddi agoriadol gan y Parch. Ddr Rosa Hunt; anerchiadau ar thema gobaith gan dri siaradwr gwadd, sef Patrick Watt, Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol, yr Esgob Sarah Mullally, darpar Esgob Caergaint bellach, a Jane Hutt AS. Hefyd cafwyd negeseuon gan bartneriaid yn India a Sierra Leone, a cherddi gan Rowan Williams a Grahame Davies. Cawsom arddangosfa briodol yn y festri a phaned gynnes, diolch i haelioni arferol aelodau'r capel.



## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

**Seintiau hen a newydd**

Bob blwyddyn ar 25 Hydref dathlwn Ŵyl Chwech o'n Merthyron Cymraeg a'u Cymdeithion. Cafodd dau , Sant Philip Evans a Sant John Lloyd, eu dienyddio yng Nghaerdydd yn 1679 am fod yn offeiriaid Catholig. Ar wal hen adeilad Banc NatWest, ar ben gogleddol Heol Richmond, mae plac glas yn coffáu'r merthyrdod. Cedwir eu henwau'n fyw yn enwau ysgolion ac eglwysi Catholig drwy Dde Cymru.

Eleni cynhelir **Offeren arbennig yn Gymraeg i ddathlu Gŵyl Holl Saint Cymru**, sy'n digwydd ar 8 Tachwedd. Croeso cynnes i bawb i Eglwys Alban Sant, Y Sblot am 7.00pm ar 7 Tachwedd ar noswyl yr Ŵyl.

Ar ôl bod gyda'r Pab mewn Offeren arbennig i bobl ifanc yn Rhufain yn yr haf, aeth pererinion ifanc o Esgobaeth Caerdydd-Mynyw ymlaen i Assisi. Yno, gyda'r Tad Matthew Roche-Saunders, cawsant ymweld â bedd sant cyntaf yr unfed ganrif ar hugain, gŵr ifanc gafodd ei ganoneiddio eleni.

Dyma ail ran yr hanes gan y Tad Matt:

'Roedd ein pererindod chwe diwrnod yn cynnwys ymweliad ag Assisi. Ers canrifoedd lawer, hwn yw cartref adnabyddus Sant Ffransis a Sant Clare, ac mae eu tystiolaeth yn dal yn fyw heddiw. Fodd bynnag, mae ffigwr sanctaidd arall llawer iau na nhw wedi ymuno â nhw bellach. Ganwyd Sant Carlo Acutis, a gafodd ei ganoneiddio'n ddiweddar, yn 1991, a bu farw o lewcemia yn 2006. Yn ystod ei fywyd byr, bu ganddo berthynas syml ond ddofn ag Iesu: mewn addoliad, mewn gwasanaeth i eraill ac wrth droi ei sgiliau cyfrifiadurol yn fodd i ddenu eraill at y ffydd. Mae e wedi ei gladdu yn Assisi, lle yr oedd wrth ei fodd yn ymweld ag e. Roedd y ffigurau sanctaidd yn atgoffa ein criw o bererinion fod symlrwydd llawen a phurdeb calon yn fodd rhyfeddol o ddilyn ein galwad ein hunain i fod yn agos at Dduw yn y bywyd hwn, gan edrych ymlaen mewn gobaith at y bywyd i ddod.'

Offeren mis Tachwedd: 30/11/25, 4.30pm Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Croeso**

Estynnnwn groeso cynnes i Gwyn a Glenys Davies wrth iddynt symud i Gaerdydd, ar ôl ymgartrefu am flynyddoedd lawer yn Aberystwyth. Bu llawer o aelodau'r eglwys yn fyfyrwyr yn Aber ar wahanol gyfnodau, gan fwynhau lletygarwch Gwyn a Glenys yno. Dymunwn bob bendith iddynt yn eu cartref newydd.

**Dymuniadau da**

Dymunwn yn dda i Emrys Bowen wrth iddo ymgymryd â'i swydd fel cynorthwyydd yn Ysgol Glantaf.

**Bore Siarad Cymraeg**

Bydd y cyfarfod nesaf ar ddydd Sadwrn 22 Tachwedd yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Dewch i wrando ar yr Athro Wyn James yn sgwrsio am yr emynydd Pedr Fardd.

**Priodas**

Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Einion a Naiomi ar eu priodas yn Aberystwyth ar 9 Tachwedd.

**Gobaith i'r Cymoedd**

Braf oedd croesawu Ilan Tricker i'r pulpud yn ddiweddar. Mae Ilan yn weithiwr plant ac ieuenctid gyda'r gymdeithas 'Gobaith i'r Cymoedd'. Dyma gymdeithas sy'n ceisio cynnig gobaith a phwrpas i ieuenctid y cymoedd a dangos iddynt gariad Duw yn yr efengyl Gristnogol.

**Cyfeillion o Oklahoma**

Pleser unwaith eto eleni oedd croesawu atom ryw 15 o gyfeillion o dair eglwys yn Oklahoma. Mae'r ffrindiau hyn yn teimlo baich mawr dros Gymru, ac yn awyddus i weld llwyddiant yr efengyl unwaith eto yn ein gwlad. Cawsom swper blasus o 'sgod a sglodion', clywed hanes yr eglwysi a chael cyfnod o weddïo dros ein gilydd. Roedd y ffrindiau wedyn yn symud ymlaen i gynorthwyo capel Penuel yng Nghaerfyrddin.

## SALEM, TREGANNA

**Diolchgarwch**

Ar 19 Hydref, cawsom wasanaeth Diolchgarwch hyfryd ac amserol yng nghwmni'r bobl ifanc. Diolch yn fawr i bob un ohonoch am eich cyfraniadau, a diolch, hefyd i bawb a fu ynghlwm â'r trefnu – yn hyfforddwyr, yn athrawon, ac yn awduron. A diolch i'r rhai a fu'n addurno'r capel ar gyfer y digwyddiad.




**Croeso**

Roeddem yn falch iawn o weld cymaint o blant a phobl ifanc wedi dod i gyfarfod cyntaf Clwb Sul Salem ar 12 Hydref. Cafwyd llawer o hwyl mewn gweithdy celf gwych o dan ofal Bethan Clwyd, a diolch yn fawr iawn iddi hi am ei gwaith caled yn trefnu ac yn paratoi'r sesiwn.

**Gweithgareddau eraill**

**Adran yr Urdd Salem** i blant oed cynradd; does dim rhaid i chi fod yn dod i'r capel bob dydd Sul – ac mae'r adran yn agored i bawb. Cynhelir y sesiwn nesaf nos Iau 20 Tachwedd rhwng 6.00pm a 7.00pm, ac yna bob pythefnos.

**Clwb Brecwast** i rieni a phlant / babanod o dan oed meithrin – Bore Mercher 19 Tachwedd, 3 Rhagfyr a 17 Rhagfyr rhwng 9.45am ac 11.15am

**Clwb Coffi** – Bore Gwener 14 Tachwedd a 12 Rhagfyr rhwng 11.00am a 12.00pm. Croeso i bawb ymuno - coffi, sgwrs a chwmnïaeth.

**Clwb Llyfrau –** Cynhelir y cyfarfod ar nos Fawrth cyntaf y mis.

**Clwb Oedolion AY** – bob nos Fercher rhwng 5.00pm a 6.30pm. Cofiwch archebu lle drwy Fenter Caerdydd.

**Clwb y Bobl Ifanc -** Mae croeso i bob person ifanc oedran uwchradd ddod i Glwb y Bobl Ifanc. Caiff ei gynnal ar nos Wener unwaith y mis, felly cysylltwch i gael rhagor o wybodaeth.

Gwelir mwy o fanylion ar Facebook neu ar wefan Salem: Capelsalem.org.

## BETHEL, PENARTH

Daliwn i feddwl yn dyner am Eirlys, Alun a Bob yn eu hanwylderau a hefyd dim llai am eu hanwyliaid.

Llawenhawn gyda Gill ac Ed wrth iddynt gamu i gangen newydd ar eu tabl achau gyda dyfodiad Efa Mabli.

Cawsom orig ddifyr iawn Ddydd Iau 23 Hydref yng nghwmni Bryan wrth iddo rannu ei atgofion am gymeriadau ardal Rhydaman. Melys, moes mwy.

Cawsom arweiniad goleuedig ar Suliau Hydref: ar y 5ed gyda Kevin yn pwysleisio'r disgrifiad o Iesu yn fara'r bywyd a'r fraint i ni o fod wrth Ei fwrdd; ar y 12fed gydag Aled Gwyn yn pregethu'n rymus ar oferedd rhyfel, yn seiliedig ar Micah 4, 3; ar y 19eg gyda Sian Meinir yn estyn ein canfyddiad o'r gwahoddiad 'Dewch i Weld' yn Ioan 1:39; ar y 26ain gydag Owen yn tynnu sylw at Ffydd o Salm 56 a hanes Daniel a'r cyswllt yn ein bywydau ni.

Sylwer ar ddigwyddiadau deniadol yn Nachwedd: Sadwrn y 15fed am 7.30 yr hwyr yn Eglwys yr Holl Saint perfformir **Gloria**, gwaith Vivaldi, gan Griw Canu Penarth (sawl un o aelodau Bethel yn cymryd rhan) gyda Llinos Haf (un o blant Bethel) ac eraill; nos Iau yr 20fed yn Eglwys Awstin Sant am 6.30 yr hwyr i gychwyn am 7 recordio rhaglen carolau DCDC y BBC; Sadwrn y 29ain am 10 y bore ym Methel cynhelir ein ffair aeaf, gyda'r elw at ein helusen MND.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon ac Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m.):**

**Mis Tachwedd:**

2 Oedfa Gymun - Delwyn Siôn [YS cynradd ac uwchradd]
9 Parchg Lona Roberts
16 Parchg Robin Samuel
23 Allan Cook
30 Parchg Jeff Williams [YS paratoi at y Nadolig]

Stori fawr y wasg a'r cyfryngau ar 20 Hydref eleni oedd fod pedwar o ladron, am 9:30 a.m. y bore cynt, wedi dwyn wyth trysor drudfawr o Amgueddfa'r Louvre ym Mharis. Ymhlith yr hyn a ddygwyd 'roedd cadwyn ddiamwnt ac emrallt a gyflwynwyd gan yr Ymerawdr Napoleon i'w wraig. Digwyddodd, darfu, mewn saith munud.

Ychydig wythnosau yn ôl, dygwyd addurnwaith cyntefig, amhrisiadwy, o'n Hamgueddfa ni yn Sain Ffagan. Ddiwedd mis Hydref y llynedd, bu i rywrai, dorri i mewn i nifer o gapeli ac eglwysi yng nghyffiniau'r Garth.

Ac oedd, roedd Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn eu plith.

Malwyd ffenestr fechan i sicrhau mynediad i'r adeilad, a bu cryn lanastr o fewn y capel a'r festri.

Agorwyd cypyrddau, a gwasgarwyd papurau o amgylch y llawr tra'n chwilmentan am ein trysorau.

Ni lwyddwyd i ddod o hyd i unrhyw beth oedd yn werthfawr yn eu tyb hwy, ac aethant oddi yno yn waglaw – yn waglaw ac yn siomedig, siŵr o fod.

Hwyrach, yn wir, y byddai wedi talu iddynt sylweddoli mai i Gapel Annibynwyr ac nid i Eglwys Gadeiriol yr oeddent wedi mentro yn oriau mân y bore, a phe baent wedi troi i mewn i'r oedfa ar y Sul cynt, byddent wedi cael y drws ar agor a gweld y moelni a'r llymder oddi mewn, ac osgoi yr holl drafferth iddynt hwy a ninnau.

Ac yn sicr nid oeddent yn hyddysg yn eu Beibl Cymraeg Newydd!

"*Y mae digonedd o aur ac o emau, ond geiriau deallus yw'r trysor gwerthfawrocaf*" (Diarhebion 20:15). Ac yn ôl Luc 12:34: "*Oherwydd lle mae eich trysor, yno hefyd y bydd eich calon".*

## BETHEL,RHIWBEINA

Yn ystod y mis a aeth heibio cawsom wasanaeth diolchgarwch yng nghwmni'r Parch. Gethin Rhys, ac ar y 12fed cynhaliwyd gwasanaeth cymun yng ngofal ein gweinidog, y Parch. Evan Morgan. Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys ag Evan wedi iddo golli ei fam yn ddiweddar.

Cafwyd cyfle hefyd i groesawu'r Parch. Aled Edwards, ac ar Sul olaf y mis bydd y gwasanaeth yng ngofal yr aelodau.

Rydym yn dymuno'n dda i Ruth Jenkins a Myfanwy Clark, y ddwy wedi cael llawdriniaeth yn ystod y mis diwethaf. Hefyd dymunwn adferiad buan i Gwilym Roberts sydd wedi gorfod mynd i'r ysbyty oherwydd anhwylder.

Cynhelir Bore Coffi yn y capel ar 14 Tachwedd, a bydd pob elw yn mynd at gefnogi'r Ganolfan Glyd.

Edrychwn ymlaen at weithgareddau'r Nadolig. Byddwn yn mwynhau cinio Nadolig ar 8 Rhagfyr, ac ar 14 Rhagfyr cynhelir gwasanaeth Nadolig pan fydd côr y capel yn perfformio a'r plant yn cyflwyno stori'r Geni.

## EBENESER

**Bore coffi**

Ar ddydd Sadwrn 4 Hydref, cynhaliwyd bore coffi ar gyfer Y Samariaid, ein helusen am y flwyddyn nesaf, yn nhŷ John a Bethan Hayes. Dyma hefyd ddiwrnod pen-blwydd Malcolm Thomas yn 89 oed. Roedd digon o gacennau i allu dathlu gyda fe, a chanu pen-blwydd hapus iddo. Llwyddwyd i godi £500.

**Cyfarfodydd Pregethu**

Ar 12 Hydref cawsom groesawu Dr Cynan Llwyd i'n plith. Ers bron i flwyddyn a hanner, mae Cynan wedi bod yn Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn. Cawsom flas ar ei brofiadau hyd yn hyn, a phwysleisiodd fod y cydweithio rhwng enwadau a sefydliadau yn galonogol. Yn y bore aeth i Salm 14 dan bedwar pen, sef 'Y Ffŵl', 'Y Ffyddlon', 'Gwaredwr', a 'Noddfa'. Yn y pnawn aeth â ni i Marc 9 a hanes y bachgen oedd yng ngafael cythraul. Eto roedd ganddo bedwar pen wrth ystyried y cwestiwn 'Beth yw credu?', sef: 'Y Meddwl', 'Y Galon', 'Gweithredoedd' a 'Gwrogaeth'. Diolch iddo am ddwy bregeth arbennig iawn. Gallwch wrando arnynt drwy fynd i Soundcloud.com a dewis Ebeneser Caerdydd.



***Gwilym Jeffs***



***Cynan Llwyd***

**Angor**

Ar bnawn Sul, 28 Medi, comisiynwyd Gwilym Jeffs yn arweinydd yn Angor, Grangetown, mewn oedfa hynod o fendithiol. Roedd yr eglwys yn llawn yng nghwmni aelodau Angor, Ebeneser, ffrindiau a theulu. Bydd Gwilym Jeffs yn gweithio dau ddiwrnod yr wythnos fel arweinydd a thridiau fel athro Saesneg. Pob bendith iddo fo a'i gyd-weithwyr.

**Llan Llanast**

Bu'n fore difyr a bywiog yn Llan Llanast fore Sul 19 Hydref yng Nghanolfan yr Eglwys. 'Iesu'n iacháu deg gwahanglwyf' oedd y testun. Roedd y crefftau i gyd yn seiliedig ar yr hanes. Bu'n gyfle i ddiolch am iechyd. A diolch i bawb ddaeth i fwynhau ac i bawb fu'n rhan o'r trefnu.

**Carreg Filltir**

Ar 4 Tachwedd dathlodd Enfys Harding ben-blwydd arbennig. Bu'n dathlu gyda'r teulu a chyda ffrindiau.

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org

@MinnyStreet Gweinidog: Y Parchg Owain Llŷr Evans

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Yn arwain i fyny at, a thros dymor yr Adfent, bydd y Gweinidog yn ein tywys drwy 'Orsafoedd y Nadolig'. Yn seiliedig ar batrwm 'Gorsafoedd y Groes' yr Eglwys Gatholig (sy'n cynnwys 14 o orsafoedd yn seiliedig ar ddioddefaint a marwolaeth Iesu Grist), bydd y gyfres yn ymwneud â chwe thema sy'n gysylltiedig â Stori'r Geni: yr Angel Gabriel yn ymddangos i Mair; Breuddwyd Joseff; Geni Iesu; y Bugeiliaid a'r Angylion; y Bugeiliaid wrth y preseb; y Tri Gŵr Doeth. Bydd yr oedfaon boreol o dan arweiniad ein Gweinidog ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr yn canolbwyntio ar y themâu yn eu tro gyda chymorth gwaith creadigol wedi'i lunio gan deuluoedd yr eglwys. Cynhelir y tair cyntaf yn y gyfres yn ystod oedfaon 09:30 Suliau 2, 9 ac 16 Tachwedd. Bydd oedfa 2 Tachwedd hefyd yn oedfa gymun.

Ddydd Sul 23 Tachwedd, byddwn yn croesawu'r Parchedig Richard Cleaves, Pen-y-bont ar Ogwr i arwain yr addoliad. Oedfaon aelodau a gynhelir Sul olaf y mis. Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod yn ystod oedfaon bore Sul 2, 9, 16 (gan gynnwys Ysgol Sul i'r plant hŷn) a 23 Tachwedd a bydd sesiwn PIMS am 17:00 ar 2 Tachwedd.

**Gweithgarwch y Mis**

Ffocws y Gweinidog yng nghyfarfodydd difyr Bethania y tymor hwn yw ein bywyd defosiynol; cynhelir y cyfarfod nesaf yng nghartref aelod nos Fawrth, 4 Tachwedd. Cyfarfodydd rhithiol o dan arweiniad ein Gweinidog yw *Zoominny* a phob cyfarfod yn seiliedig ar greadur; bydd y nesaf yn y gyfres nos Fawrth, 18 Tachwedd. Mae rhaglen y Gymdeithas yn cynnig arlwy ddiddorol gyda dau gyfarfod yn ystod y mis: 11 Tachwedd, Noson yng nghwmni Aled Huw; a 25 Tachwedd, Noson yng nghwmni Gwawr Owen. Mae criw da yn mynychu ein boreau coffi misol, ein *Koinônia* misol a'n cyfarfodydd wythnosol yng nghaffi cronfeydd dŵr Llanisien. Cawn gyfle i fwynhau cwmni ein gilydd eto mewn bore coffi yng nghartref aelod (7 Tachwedd), yn ein Koinônia misol (16 Tachwedd) a phob bore Mawrth pan fydd cyfle i gael paned, clonc a thro o gwmpas y cronfeydd dŵr.

Mae galw cynyddol am wirfoddolwyr i gynorthwyo yn y Ganolfan Glyd. Dyddiadau Minny Street y mis hwn yw boreau Mercher, 5 a 26 Tachwedd; prynhawn Sul 16 Tachwedd.

## EGLWYS Y CRWYS

**Cyfarchion**

Mae dwy o'n haelodau ffyddlonaf wedi derbyn triniaethau yn ddiweddar. Rydym yn dymuno'n dda i Mrs Gwen Edwards yn dilyn triniaeth yn yr Ysbyty Athrofaol ac i Mrs Glenys Thomas ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Felindre. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddynt.

Llongyfarchiadau i Ffion Harker ar fod yn rhan o Gerddorfa Ieuenctid Caerdydd a'r Fro mewn cyngerdd yn yr Albert Hall yn Llundain. Profiad i'w gofio am byth.

Llongyfarchiadau hefyd i Tegwen Velios sy'n rhan o Gwmni Drama yn y cynhyrchiad o *The Ghost Managers* yng Nghwrt Insole.

**Y Gymdeithas**

Cafwyd noson hwyliog o dan nawdd y Gymdeithas yng nghwmni Mair Tomos Ifans gyda 'Chwedl a Chân'. Mae'n storiwraig naturiol braf yn cyflwyno straeon, caneuon, ac arferion traddodiadol Cymru. Diolch iddi am ei chyfraniad ac i Cerian Angharad am y trefniadau.

**Yr Ystafell Fyw**

Rydym yn falch iawn yn Eglwys y Crwys o gael cynnig cartref newydd i'r Ystafell Fyw, ac roedd y lansiad ar 26 Hydref yn llwyddiant mawr. Dymunwn yn dda i Wynford Ellis Owen a'r tîm sydd ynglŷn â'r gwaith pwysig hwn. Pob bendith ar y gwaith.

**Trefn Oedfaon mis Tachwedd**

9 Tachwedd: y Parchg Gethin Rhys
16 Tachwedd: Mr Thomas Williams
23 Tachwedd: y Parchg Aled Edwards
30 Tachwedd: Bore: Gwasanaeth yr Adfent; Hwyr: y Parchg Robin Samuel
7 Rhagfyr: Mr Thomas Williams: Oedfa Gymun yn yr hwyr.

## EGLWYS DEWI SANT

**Digwyddiadau Cerddorol**

Trefnodd Côr Bach Caerdydd ddiwrnod o 'Dewch i Ganu' yn yr eglwys ddydd Sadwrn, 4 Hydref. *'The Armed Man: A Mass for Peace'* oedd y darn a ganwyd.

Cynhaliwyd cyngerdd awr ginio ddydd Mawrth, 7 Hydref, dan nawdd Actifyddion Caerdydd. Perfformiodd Pedwarawd Fibonnaci, un o bedwarawdau ifanc mwyaf blaenllaw Ewrop, ddarnau gan Haydn, Fegus Hall a Janaceck.

**Cyngerdd Elusennol**

Nos Sadwrn, 25 Hydref, cynhaliwyd cyngerdd elusennol i gefnogi teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan y rhyfel yn Wcráin. Roedd yn noson o gerddoriaeth ryng-ddiwylliannol Gymreig ac Wcrainaidd.

**Cloch Dewi**

Dosbarthwyd rhifyn yr hydref o *Cloch Dewi* ddydd Sul, 28 Medi. Diolch i'r golygydd, Wyn Mears, am ei waith caled yn cynhyrchu rhifyn difyr a graenus.

**Ymweliad**

Y Senedd oedd cyrchfan rhai o blwyfolion EDS, ddydd Iau, 2 Hydref. Yno cafwyd cyfle i weld arddangosfa o drysor amhrisiadwy y ffydd Gristnogol a'r diwylliant a'r iaith Gymraeg, sef Beibl William Morgan. Dyma'r argraffiad cyntaf o'r Beibl cyflawn a'r Apocryffa a gyhoeddwyd yn 1588. Yn ogystal, ymhlith y Beiblau eraill, roedd Beibl yn Esperanto a'r Basgeg. Yn dilyn yr ymweliad cafwyd cinio blasus ym mwyty Valentino. Diolch i Delyth a Shân am drefnu.

**Gwasanaeth Cymundeb Porvoo**



Nos Fawrth, 7 Hydref, bu gwasanaeth arbennig yn EDS, sef gwasanaeth agoriadol Cynhadledd Eglwysi Cymundeb Porvoo. Roedd yn wasanaeth hanesyddol wrth i Eglwys Ynysoedd Faro ddod yn aelod swyddogol o'r Cymundeb. Roedd clerigwyr o Ynysoedd Faro a Denmarc, mainc Esgobion yr Eglwys yng Nghymru, Côr EDS a'u harweinydd, Ieuan Jones, a rhai o'r plwyfolion EDS yn bresennol. Gwerthfawrogwyd y croeso da gafodd yr ymwelwyr yn EDS.

**Diolchgarwch am y Cynhaeaf**

Cafwyd mwynhad arbennig yn y Gwasanaeth Diolchgarwch a'r cinio eleni. Fe'i cynhaliwyd ddydd Sul, 12 Hydref, a'r pregethwr gwadd oedd y Parchedig Elinor Talfan Delaney. Roedd yr eglwys yn edrych yn hardd yn ei gwisg hydrefol, a'r cinio yn y neuadd wedi'r gwasanaeth yn flasus dros ben. Diolch i bawb a fu ynglŷn â'r paratoadau, ac i Dilys a Delyth am gydlynu'r cyfan.

**Coffi a Chlonc**

Cafwyd amser hwyliog iawn yn y bore Coffi a Chlonc, 18 Hydref.

## Côr Caerdydd

Ar ôl hoe dros yr haf, mae'r tymor hwn eisoes yn profi'n un prysur i Gôr Caerdydd.

Ar nos Sul cyntaf mis Hydref, ymddangosodd y Côr yng nghapel y Tabernacl, yr Ais i ganu Offeren yn G gan Schubert, mewn oedfa gymun dan ofal y Parchg Ddr Rosa Hunt. Cafwyd ymateb gwresog i'r canu, a sawl aelod o'r gynulleidfa wedi datgan eu gwerthfawrogiad o'r fendith a gafwyd.

Roedd dydd Sul 19 Hydref 2025 yn achlysur arbennig o freintiedig i Gôr Caerdydd wrth iddynt gamu i'r llwyfan yn Neuadd Brangwyn, Abertawe, i ganu yn *The Armed Man: A Mass for Peace* – perfformiad dathlu pumed pen-blwydd ar hugain y gwaith hynod bwerus hwn. Yn camu i'r podiwm roedd y cyfansoddwr ei hun, Syr Karl Jenkins. Mae'r Côr wedi cael yr anrhydedd o ganu'r gwaith hwn sawl gwaith ers ei berfformiad cyntaf ar droad y ganrif, gyda Syr Karl yn arwain dros ddwsin ohonynt. Fel arfer caiff ei berfformio gyda cherddorfa lawn, a'r hyn a wnaeth yr achlysur hwn yn unigryw oedd trefniant band pres, wedi'i berfformio'n feistrolgar gan Fand Aldbourne. Tystiolaeth o lwyddiant y fenter oedd cymeradwyaeth wresog gan gynulleidfa o dros fil o bobl.

Yn nes at y Nadolig, fe fydd y Côr yn perfformio eu cyngerdd carolau blynyddol. Eleni, fe gynhelir yr achlysur ar nos Fercher 3 Rhagfyr, yn Eglwys Teilo Sant, Yr Eglwys Newydd. Hefyd yn cymryd rhan fe fydd Côr Ysgol Melin Gruffudd, Côr Ffrindiau Melin Gruffudd a Huw Stephens. Arian er budd Canolfan Cancr Felindre. Dewch yn llu!

## Merched Plastaf

Ddechrau Hydref, cafwyf gwahoddiad i gynnal cyngerdd yng Nghasnewydd yng Nghapel Mynydd Seion, Casnewydd. Braf oedd derbyn y gwahoddiad, a oedd yn rhan o ddigwyddiadau yn yr ardal i godi arian i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd fydd yn ymweld â Thŷ Tredegar yn 2027. Roedd y gwahoddiad hefyd yn rhan o'r wobr a enillodd y côr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni.

Cafwyd noson hyfryd yn y capel, a llwyddwyd i ddiddanu'r gynulleidfa, gydag unawdau, deuawdau, partïon a'r côr llawn. Diolch yn fawr i Elin Maher am y gwahoddiad, ac am drefnu'r cyngerdd. Dymuniadau gorau i'r gwaith codi arian at yr Eisteddfod.

Mae'r côr yn edrych ymlaen at dymor prysur eto, yn cystadlu yn yr Ŵyl Cerdd Dant yn Aberystwyth ddechrau mis Tachwedd, ac yna'n recordio **Dechrau Canu Dechrau Canmol** cyn diwedd y mis. Bydd y tymor yn dod i ben gyda Chyngerdd Nadolig blynyddol yn Eglwys Sant Ioan, Treganna – cyfle i ymlacio yn naws y Nadolig – ac rydym yn edrych ymlaen at groesawu pawb yno ar nos Fercher 17 Rhagfyr.



# ‘Biniau Cŵl Caerdydd’

### Y cysylltiadau annisgwyl tu ôl i’r ymgyrch liwgar

Bydd llawer ohonoch wedi sylwi ar y posteri lliwgar sydd ar finiau sbwriel o amgylch rhannau o’r brifddinas dros yr wythnosau diwethaf, sydd yn chwarae ar eiriau caneuon Cymraeg, yn annog y cyhoedd i ddefnyddio’r biniau’n gyfrifol.




Ond beth yw’r hanes tu ôl i’r ymgyrch wastraff yma gan Gyngor Caerdydd?

Daeth y cynllun i fod drwy grant o £10,000 gan gwmni McDonald’s gyda chefnogaeth yr elusen amgylcheddol Hubbub ymhlith cynlluniau eraill i wella’r biniau yn wardiau Adamsdown, Butetown, Cathays, Glan-yr-afon, Grangetown, Plasnewydd, Sblot a Threganna.

Mae clirio sbwriel yn costio £7m i’r cyngor bob blwyddyn i lanhau’r strydoedd ac felly y nod drwy ddod ag ychydig o hwyl a lliw i’r biniau yw i annog eu defnyddio nhw, yn lle bod pobl yn gollwng sbwriel ar lawr!

Pan ofynnwyd i Aled Evans [ @aled_ty_capel i’w ffrindiau ] sy’n rhan o’r tîm Strategaeth Gwastraff yng Nghyngor Caerdydd i greu ymgyrch Gymraeg i gyd-fynd â’r ymgyrch bosteri Saesneg – oedd yn chwarae ar y geiriau *winner/binner a winning/binning* – ar ôl crafu pen am ychydig, doedd dim amdani ond troi at ei gydweithwyr yn nhîm Caerdydd Ddwyieithog, Cyngor Caerdydd!

Daeth y syniad i un o’r Prif Gyfieithwyr yn y tîm, Steffan Williams, sef yn hytrach na cheisio efelychu’r Saesneg, pam ddim chwarae ar eiriau caneuon pop Cymraeg?

Steffan oedd un o’r rhai fu’n gyfrifol am y cyfieithiadau creadigol yma yn rhai o barciau’r brifddinas yn y gorffennol.

Fe gasglodd Steff awgrymiadau am eiriau caneuon posib gan aelodau eraill o’r tîm, ac fe hidlwyd yr awgrymiadau yn bedwar terfynol gan Aled - dyna pam fod chwarae dychmygus ar eiriau caneuon gan Ems (*Ceidwad y Goleudy*), Edward H Dafis (*Ysbryd y Nos*), Gorkys (*Patio Song*) a Jarman (*Merch Tŷ Cyngor*) wedi eu hanfarwoli nawr am yr eildro ar rai o finiau’r brifddinas.




***Arwydd ar y tarmac ym Mharc Bute***

Ymhlith y cynigion eraill a ddaeth yn agos iawn oedd *Lluchia dy fflachlwch ynof i* (Ffa Coffi Pawb) a *Gofyn wyf am Gaerdydd hapus, strydoedd taclus, parciau glân* (geiriau gwreiddiol Daniel James neu Gwyrosydd - o’r emyn *Calon Lân* wrth gwrs!)

Mae Steffan fel mae’n digwydd yn ddilynwr brwd o’r sîn roc Gymraeg ers blynyddoedd lawer, ac o fandiau fel y *Gorkys* a’r *Super Furry Animals,* a bydd yn aml yn trafod y sîn roc gydag Aled yn y cyngor pan fydd cyfle’n codi, am fod Aled - yn ei amser sbâr - yn drymio gyda’r prif ganwr Dylan Hughes o Aberystwyth a’r band poblogaidd *Ynys* – enillwyr gwobr albwm Cymraeg y flwyddyn 2025 gyda *Dosbarth Nos* ar label recordiau Libertino. Cyn ffurfio *Ynys* roedd Dylan yn canu/allweddellau gyda’r bandiau *Radio Luxembourg* a *Racehorses*. A chyn iddo symud nôl i weithio i’r Brifysgol yn Aberystwyth ryw bum mlynedd yn ôl, roedd Dylan ei hun hefyd yn gweithio fel swyddog polisi – ie i neb llai na thîm Caerdydd Ddwyieithog yng Nghyngor Caerdydd! Byd bach bois...!

Mae Ynys newydd chwarae yng ngŵyl Sŵn yn y brifddinas fis Hydref.

Ar ôl haf go brysur i’r band, bydd y misoedd nesaf yn gyfle i sgwennu caneuon newydd – pwy a ŵyr, efallai y bydd cân am sbwriel ar y record nesaf pan ddaw hi!

Bydd y cyfle nesaf i weld Ynys yn perfformio’n fyw yng ngŵyl Trawsnewid, Aberystwyth yn y flwyddyn newydd ar 06-07/02/26.

**Dylan Hughes, Ynys, yng nghanol y rhes flaen ac Aled Tŷ Capel ar y dde.**



# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Cafwyd gair o groeso gan Iona Edwards, y Cadeirydd, i'r gynulleidfa niferus a ddaeth i Bethel ar 20 Hydref i glywed Wyn Jones yn sôn am 'Cadw'n Saff ar y We!'. Cafodd Wyn, sy'n frodor o Gynwyl Elfed yn Sir Gâr, yrfa lwyddiannus iawn yn y maes digidol am flynyddoedd lawer gan weithio i gwmnïau megis Banc Lloyds, SWALEC a 3M. Tynnodd Wyn ein sylw at y ffaith bod y We yn rhan annatod o'n bywydau bob dydd, a'r angen i fod yn wyliadwrus rhag seiber-dwyll a sgamiau. Mae'r dulliau o dwyllo er mwyn cael mynediad at wybodaeth bersonol a dwyn arian yn datblygu'n barhaus ac yn mynd yn fwy soffistigedig. Wele ychydig enghreifftiau o'r sgamiau 'cyffredin' y cyfeiriodd Wyn atyn nhw:



Derbyn e-bost yn enw perthynas neu gydnabod yn gofyn am arian ar fyrder.

Derbyn neges destun oddi wrth gwmni dosbarthu parseli yn holi am dâl ychwanegol i gludo'r parsel, er efallai nad oes parsel i'w ddisgwyl.

'Hacio neu glonio' cyfrif Facebook er mwyn cael mynediad at fanylion personol.

Label Côd QR wedi ei ludio dros yr un gwreiddiol ar beiriant maes parcio er mwyn dwyn manylion banc.

Peiriannau twll yn y wal gyda dyfais 'allanol' i gopïo'r cerdyn.

Galwad ffôn oddi wrth fanc yn cynghori trosglwyddo arian i gyfrif arall ar fyrder.

Mae WhatsApp yn safle ddiogel gydag amgryptio cryf, ond mae angen gofal gyda chysylltiadau allanol.

Braslun o gyngor defnyddiol Wyn er mwyn ceisio osgoi'r sgamiau uchod:

Cadw cyfrineiriau yn ddiogel a'u defnyddio ar gyfer un pwrpas yn unig.

Defnyddio meddalwedd gwrth-firws safonol.

Defnyddio e-bost megis 'gmail' sy'n dda am adnabod sgam.

Ymataliwch rhag rhannu gwybodaeth, neu rhannwch cyn lleied o wybodaeth â phosib.

Diolchodd Iona i Wyn am ei arweiniad ac am nodi cymaint o elfennau sgamio a seiberddiogelwch, ac anogwyd pawb i fod yn ofalus a chofio ei gyngor mewn tri cham pwysig:

**Byddwch yn wyliadwrus**
**Meddyliwch a phwyllwch**
**Peidiwch mynd i banig**

## Noson cwis er budd Academi Rygbi Lesotho

Codwyd bron i £800 dros Academi Rygbi Lesotho mewn cwis yn nhafarn yr Half Way ar 21 Hydref. Mae'r elusen yn defnyddio rygbi i hyrwyddo negeseuon ar sut i fyw yn iach, osgoi HIV/Aids a chydraddoldeb rhywiol ymysg plant a phobl ifanc yn Lesotho, gwlad sydd wedi'i gefeillio gyda Chymru ers deugain mlynedd.

Ffurfiwyd yr elusen yn 2014 gan Lits'itso Motseremeli, cyn bencampwr tai-kwondo Affrica a Dan Aylward, economegydd o Lundain oedd ar secondiad i Lywodraeth Lesotho. Roedd Lits'itso angen ymddeol o tai-kwondo a chwarae rygbi, camp oedd ddim yn bodoli yn Lesotho ar y pryd. Yn ffodus, daeth e mewn cysylltiad â Dan, chwaraewr rygbi brwd. Ar ôl brwydro'n galed, ffurfiwyd Ffederasiwn Rygbi Lesotho, ac erbyn hyn mae deuddeg clwb yn y wlad. Rhaid i bob un gael timau merched a dynion a chysylltiadau gydag ysgolion lleol cyn cael eu derbyn gan y Ffederasiwn.

Er mwyn sicrhau dyfodol i'r gêm, ffurfiwyd Academi gyda'r bwriad o ddefnyddio cryfderau traddodiadol rygbi fel gwaith tîm, parch i'r dyfarnwr ac ategu gwersi byw yn iach: osgoi cyffuriau, alcohol, ysmygu; parchu gwahaniaethau yn ogystal â dysgu sut i chwarae rygbi ar yr un pryd.

Erbyn hyn, mae miloedd o blant wedi derbyn hyfforddiant a phump o ferched ac un bachgen o'r Academi wedi sicrhau cytundebau proffesiynol i chwarae gyda chlybiau yn Ne Affrica.

Mae gennym dystiolaeth bod gwaith yr Academi mewn ysgolion wedi trawsnewid bywydau miloedd lawer o ferched a bechgyn trwy roi hyder a gobaith am y dyfodol iddynt. Mae gennym dair hyfforddwraig a chwech hyfforddwr yn gweithio mewn ysgolion ledled Lesotho, gan gynnwys ysgolion i'r anabl.

Os hoffech gyfrannu at ein gwaith gallwch roi trwy ddefnyddio'r linc:
Lesotho Rugby Academy

Fel elusen bach, does gennym ni braidd ddim costau, felly bydd bron pob ceiniog yn cynnal ein gwaith holl bwysig.

*Steve Lloyd – Ymddiriedolwr*



# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Cyhoeddodd yr FCA (yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol) yn ddiweddar y bydd taliadau ***iawndal o gamwerthu*** yng nghytundebau cyllid ar geir yn debygol o fod tua £700 yr un.

   Does dim angen i chi ddefnyddio cwmni cyfreithiol i hawlio'r iawndal. Felly, os ydych chi'n credu eich bod â chais dilys am iawndal, cysylltwch â'ch benthyciwr i ddechrau'r achos. Efallai y byddwch yn cael eich cymeradwyo i dderbyn iawndal yn gynt trwy fynd at eich benthyciwr, yn hytrach nag aros am gynllun iawndal yr FCA i lansio y flwyddyn nesaf.

2. Ydych chi'n gyfarwyddwr ar gwmni cyfyngedig sydd wedi'i gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau? Os felly, efallai eich bod wedi derbyn e-byst yn egluro y bydd angen ***'gwirio hunaniaeth'*** cyfarwyddwyr o 18 Tachwedd 2025 ymlaen.

   Mae hwn yn gais dilys gan Dŷ'r Cwmnïau (ond byddwch yn wyliadwrus o e-byst posibl gan dwyllwyr). Mae'r broses gwirio yn syml iawn, yn enwedig os oes gennych drwydded yrru a phasbort. Gwiriwch gyda'ch cyfrifydd os ydych yn ansicr o'r broses.

3. Byddwch yn ofalus o ***ddylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol*** sy'n portreadu eu hunain fel ***cynghorwyr ariannol***. Mae nifer ohonynt yn annog dilynwyr i fuddsoddi, er nad ydynt yn gymwys i roi cyngor ariannol. Byddwch yn ymwybodol bod rhai dylanwadwyr yn cael eu talu i hyrwyddo buddsoddiadau penodol. Gwnewch yn siŵr eich bod bob amser yn derbyn cyngor proffesiynol cyn gwneud penderfyniadau buddsoddi. Os yw'n swnio'n rhy dda i'w gredu, mae'n sgam!

***Cwestiynau i Huw ac Aled***

***C:*** *Mae fy ngŵr a minnau yn ein 70au ac yn mwynhau ein hymddeoliad. Penderfynon ni beidio â chael unrhyw blant ein hunain, ac oherwydd nad oes gan fy ngŵr na minnau unrhyw deulu agos chwaith, rydym yn treulio ein hamser gyda ffrindiau ac yn gwirfoddoli gydag elusennau. Ble ddylen ni ddechrau o ran cynllunio ar gyfer treth etifeddiaeth?*

***A:*** Mae nifer cynyddol o bobl heb blant, ac felly pan mai'r ateb i'r cwestiwn 'Pwy fydd yn etifeddu eich cyfoeth?' yw 'Nid y plant', mae'n cymryd mwy o amser i ystyried pwy hoffech chi i dderbyn beth o'ch ystâd.

Oes gennych chi unrhyw gefndryd rydych chi wedi colli cysylltiad â nhw, ond yr hoffech iddynt dderbyn swm penodol o arian, neu i dderbyn eitem deuluol hanesyddol? Beth am ffrindiau agos sydd wedi bod yn gefn i chi eich dau ar hyd y blynyddoedd? Gan eich bod yn gwirfoddoli gydag elusennau, ydych chi wedi ystyried gadael swm i elusen benodol?

Mewn erthygl yn y *Financial Times*, roedd un unigolyn wedi penderfynu y byddai'n well ganddo adael canran o'i ystâd i leian sy'n bragu cwrw yn yr Almaen oherwydd ei fod wedi mwynhau ei chynnyrch dros y blynyddoedd.

Nid oes angen i'ch penderfyniad fod mor ddramatig, ond mae gennych chi gymaint o opsiynau ag y dymunwch. Y cam cyntaf, pwysig, yw i drafod hyn gyda'ch gŵr ac i lunio cynllun cyn cyfarfod â chyfreithiwr.

*Am fwy o fanylion cysylltwch â ni drwy:*
*Huwaledaccountants.com neu 029 20694524*

---

## YesCymru Caerdydd

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddydd Sadwrn 20 Medi yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr, Stryd Siarl, Caerdydd. Trafodwyd yr hyn a gyflawnodd aelodau'r gangen yn ystod y flwyddyn. Aeth nifer i stiwardio yn y rali dros Annibyniaeth a gynhaliwyd yn y Barri ar 26 Ebrill; helpu i glirio sbwriel mewn tri lleoliad yng Nghaerdydd; gweithio ar stondin YesCymru yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr, Parc Margam a'r Fro ac ar y ddwy stondin yn Tafwyl. Diolchodd y Cadeirydd, Chris Hoyle, i bawb am eu hymdrechion i ddwyn sylw'r cyhoedd at bwysigrwydd y frwydr am annibyniaeth i Gymru. Etholwyd Jack Wynne-Williams yn Gadeirydd, a bydd yn parhau fel Trysorydd hefyd. Etholwyd Elin Davies fel ysgrifennydd a bydd Chris Hoyle yn gyfrifol am y cyfryngau cymdeithasol. Diolchwyd i Chris am ei waith fel Cadeirydd dros y flwyddyn aeth heibio.

Roedd Jon Matthias wedi trefnu cwis ar gyfer yr aelodau, a thîm Jack ac Elin oedd yn fuddugol. Roedd Elin wedi paratoi lluniaeth blasus ar gyfer yr aelodau.

I ymuno ag YesCymru Caerdydd, cysylltwch drwy https://www.cymru.yes neu Caerdydd@yes.cymru. Gallwch hefyd ddod o hyd i ni drwy'r gweplyfr/facebook a bluesky. Cysylltwch, felly, fel y gallwn gryfhau ein presenoldeb yn y brifddinas.

*Dafydd Griffiths*




***Jon (trefnydd y cwis) yn cyflwyno'r cwpan i Jack ac Elin.***

# Y DIGWYDDIADUR

## Tachwedd

**Mawrth, 11 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Sgwrs gan Nerys Howell ar y testun 'Bwyd Tymhorol', yn Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, CF23 6SE am 2.30pm. Croeso cynnes. Am ragor o fanylion: (eluned@press0.plus.com; 07761-358755).
**Mawrth, 11 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson yng nghwmni Aled Huw, y cyn-newyddiadurwr a darlledwr, am 7.00pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.
**Mercher, 12 Tachwedd**
Menter Caerdydd. Noson o gerddoriaeth yng nghwmni Alis Glyn a Paralel yn y gyfres 'Gigs y Rhath' (18+), yn Paradise Garden, 213 Heol y Plwca (*City Road*), Y Rhath, am 7.30pm. Tocynnau: £10 (£7 i fyfyrwyr). Manylion pellach: www.mentercaerdydd.cymru
**Iau, 13 Tachwedd**
Menter Caerdydd. Taith dywys i weld casgliad crochenwaith Amgueddfa Cymru Caerdydd rhwng 10.00am a hanner dydd. Am ddim. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).
**Iau, 13 Tachwedd**
Menter Iaith Bro Morgannwg yn cyflwyno noson acwstig yng nghwmni Catsgam, Melda Lois a'r Gerddorfa Ukulele, ym Mhafiliwn Pier Penarth (CF64 3AU), am 7.30pm. Tocynnau: £12 ymlaen llaw; £15 wrth y drws. https://menterbromorgannwg.cymru/event/gig-pafiliwn-y-pier-cy
**Gwener, 14 Tachwedd**
Clwb Canna yn cyflwyno'r bandiau Pwdin Reis a Dadleoli yn y Clwb Rhyddfrydol, Treganna (CF5 1JD), am 8.00pm. Tocynnau: £15 – ar werth yn siop Caban neu ar-lein trwy https://www.ticketsource.co.uk/clwbcanna.
**Sadwrn, 15 Tachwedd**
Noson o gerddoriaeth glasurol yng nghwmni Criw Canu Penarth, yn cynnwys *Gloria* gan Vivaldi, a Manon Ogwen Parry, Llinos Haf Jones a Philharmonia Abertawe, yn Eglwys yr Holl Saint, Penarth, CF64 3EL, am 7.30pm. Tocynnau: www.ticketsource.co.uk/criw-canu-penarth
**Llun, 17 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Bydd Gwyn Loader yn siarad ar y testun 'Newyddion' yng nghapel Bethel, Maes-y-deri, Rhiwbina, CF14 6JJ, am 7.30pm. Manylion pellach oddi wrth yr Ysgrifennydd, Gwyneth Stephens (penrhiwalltycnap@gmail.com). Croeso.
**Iau, 20 Tachwedd**
Theatr Sherman a Theatr Cymru yn cyflwyno 'Biwti a Brogs' gan Gwawr Loader, yng Nghanolfan Celfyddydau Memo, Y Barri, am 1.30pm. I blant 3–6 oed. Manylion pellach: https://memoartscentre.co.uk/cy/Shows/biwti-a-brogs/
**Iau, 20 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Hanes Llongau Masnach Cymreig gyda Dr David Jenkins, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Heol Kelston, Yr Eglwys Newydd, CF14 2AA, am 7.30pm. Am wybodaeth, cysylltwch â Janet James ar 07810-363232. Croeso. **Iau, 20 Tachwedd**
Recordio 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' yn Eglwys Sṭ Augustine, Penarth, CF64 1BJ, am 7.00pm (drysau'n agor am 6.30pm). Croeso i bawb.
**Iau, 20 Tachwedd**
Menter Caerdydd. 'Sgwrs y Mis' gan Dr Gethin Matthews ar y testun 'Richard Burton: Seren Cymru?', i nodi canmlwyddiant geni Richard Burton. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs neu £20 am y flwyddyn. I gofrestru, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).
**Gwener 21 Tachwedd**
Dewch i glywed Dr Aled Eirug yn trafod ei lyfr newydd, *Dafydd Elis-Thomas: Nation Builder*, gyda Vaughan Roderick mewn achlysur a drefnir gan Gymdeithas Hanes Plaid Cymru, yn Neuadd y Plwyf, Llandaf, am 7.00pm. Yn Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd i'r Saesneg. Bydd cyfle i brynu copi o'r llyfr wedi ei lofnodi gan yr awdur.
**Gwener, 21 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Bydd Betsan Powys a Rhys Powys yn siarad ar y testun 'Y Stydi a'r Ffrachle: Cip ar Bapurau R. Alun a Rhiannon Evans', trwy gyfrwng Zoom am 7.15pm. I ymaelodi (£10 am y flwyddyn) ac i dderbyn y ddolen Zoom, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, yr Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk). Croeso.
**Sadwrn, 22 Tachwedd**
Bore Siarad Cymraeg (lefel ganolradd ac uwch). Dewch i ymarfer eich Cymraeg a gwrando ar sgwrs gan yr Athro E. Wyn James am yr emynydd mawr Pedr Fardd, i gofio 250 mlwyddiant ei eni yn 1775, yn Hyb Rhiwbina (CF14 6EH) am 10.30am. Am ddim. Dan nawdd Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd. Croeso cynnes.
**Llun, 24 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Trafodaeth panel ar y testun 'Deallusrwydd Artiffisial yng Ngwyddoniaeth' yng nghwmni Llŷr ap Cynydd a Dewi Bryn Jones o Brifysgol Bangor, am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am fanylion pellach ac i dderbyn y ddolen Zoom, anfonwch at CymdeithasWyddonol@gmail.com
**Mawrth, 25 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Eglwys Minny Street. Noson yng nghwmni Gwawr Owen, arweinydd Côr Caerdydd, am 7.00pm yn festri'r capel (CF24 4ER). Croeso cynnes i bawb.
**Iau, 27 Tachwedd**
Melin yn cyflwyno 'Dolig Delwyn' yng Nghlwb yr Earl Haig, Yr Eglwys Newydd (CF14 2AA). Tocynnau ar werth yn siop Iechyd Da, Yr Eglwys Newydd (£15).
**Gwener, 28 Tachwedd**
Taith o gwmpas Canolfan Mileniwn Cymru (trwy gyfrwng y Gymraeg) yn dechrau am 10.00am. Manylion pellach: https://www.wmc.org.uk/cy/digwyddiadur/2025/teithiau-yn-gymraeg
**Gwener, 28 Tachwedd**
Dafydd Owain: Ymarfer Byw, yn Eglwys St John's, Cilgant Sant Ioan, Treganna (CF5 1NX), am 7.00pm. Tocynnau: £15.00 drwy SeeTickets (https://www.seetickets.com/event/dafydd-owain-ymarfer-byw/st-john-s-church-canton/3511254)
**Gwener–Sadwrn, 28–29 Tachwedd**
Theatr Bara Caws yn perfformio cyfieithiad Gareth Miles, 'Llanast!' (14+), yn Nhŷ Dawns, Canolfan Mileniwm Cymru (CF10 4PH), am 7.30pm. Tocynnau: £15 drwy WeGotTickets (Gwener: https://wegottickets.com/event/669656; Sadwrn: https://wegottickets.com/event/669661)

## Rhagfyr

**Llun, 1 Rhagfyr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Yng Ngwesty'r 'New House', Heol y Ddraenen, Draenen Pen-y-graig (*Thornhill*), Caerdydd, CF14 9UA. Ymgynnull am 7.00 ar gyfer 7.30pm. Siaradwyr gwadd: Huw Foulkes a Ruth Roberts. Croeso cynnes.. . Cyswllt Paul Morgan: cylch.cinio@gmail.com
**Mercher, 3 Rhagfyr**
Cyngerdd Nadolig at Ganolfan Canser Felindre, yng nghwmni Côr Ysgol Melin Gruffydd, Côr Ffrindiau Melin Gruffydd, Côr Caerdydd a Huw Stephens, yn Eglwys Sant Teilo, Yr Eglwys Newydd, am 7.30pm.
**Gwener, 5 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan Jon Gower, 'Bywyd Mewn Llyfrau'. Trwy gyfrwng Zoom am 7.30pm. Y tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £15; y pris mynediad i gyfarfod unigol yw £5 (ond am ddim i aelodau). Croeso cynnes.I dderbyn gwybodaeth ynghylch sut i dalu, a'r ddolen Zoom, anfonwch at cymrodorioncaerdydd@gmail.com.
**Sadwrn, 6 Rhagfyr**
Taith gwylio adar fisol dan arweiniad Eirian a Gwilym Dafydd, yn dechrau am 10.30am. Am ddim. Am ragor o wybodaeth, anfonwch at eirianagwilym@gmail.com
**Sadwrn, 6 Rhagfyr**
Achlysur yng nghapel y Tabernacl, Llanfaches (NP26 3AY), i gofio William Wroth a sefydlu'r achos Ymneilltuol cyntaf yng Nghymru yn Llanfaches yn 1639. Darlith am 11.15am ac oedfa o ddiolchgarwch a choffâd am 2.30pm. Manylion (serenagwill@btinternet.com; 07968-463737).

Mae Menter Caerdydd angen eich cymorth! Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod ni wedi cael ein dewis fel un o elusennau y Co-op am y flwyddyn nesaf er mwyn codi arian ar gyfer ein cyngherddau cymunedol ‘Mewn Tiwn’. Mae maint y grant yn dibynnu ar faint o bobl sy’n dangos cefnogaeth i ni ar app neu wefan y Co-op. Mae’r flwyddyn yn rhedeg hyd fis Tachwedd 2026.

Os ydych yn aelod o’r Co-op yn barod, lawrlwythwch yr app a dewiswch ni fel eich elusen am y flwyddyn. Gallwch hefyd wneud hyn trwy’r wefan: https://www.coop.co.uk/membership

Os nad ydych yn aelod o’r Co-op, mae’n hawdd ymuno am £1, naill ai ar-lein neu yn eich cangen leol. Byddwch yn cael y £1 yn ôl wrth ddefnyddio eich cerdyn yn y siop am y tro cyntaf. Ar ôl ymuno, gellir pleidleisio drosom ni yn yr app neu ar y wefan.

Dyma gip ar rai o’r digwyddiadau sydd ar y gweill gan griw Menter Caerdydd yn ystod mis Tachwedd.

**Cwrs Gwerthfawrogi Barddoniaeth ar Zoom**
Dydy hi ddim yn rhy hwyr i gofrestru ar gyfer y cwrs gwerthfawrogi barddoniaeth ar Zoom, bob nos Lun ym mis Tachwedd yng nghwmni Bethan Mair. Yn ystod y cwrs, byddwn yn trafod rhai o gerddi TH Parry-Williams, Waldo, Gwenallt a Saunders Lewis. Bydd recordiadau ar gael os byddwch yn colli sesiwn. Cost: £20.

**Gig Alis Glyn a Paralel**
Mae Menter Caerdydd yn falch o gefnogi prosiect newydd Gigs y Rhath gyda’r digwyddiad nesaf yn cael ei gynnal ar nos Fercher, 12 Tachwedd yn Paradise Garden ar City Road. Y cerddor Alis Glyn o Gaernarfon a enillodd dlws Sbardun yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025 fydd yn perfformio, ynghyd â’r band ifanc o Gaerdydd, Paralel. Mae’r noson yn addas i bawb dros 18 oed ac mae tocynnau ar gael am £10 ar wefan Menter Caerdydd.

**Siaradwyr Newydd**
Cofiwch am ein boreau coffi, bob yn ail wythnos, yn hybiau Rhydypennau (Iau, 6 a 20 Tachwedd – Pawb), Rhiwbeina (Gwener, 7 a 21 Tachwedd – Mynediad/ Sylfaen) a Llaneirwg (Mawrth, 4 a 18 Tachwedd – Pawb). Mae pob sesiwn yn dechrau am 10.30am. Mae sesiwn wythnosol i bob lefel yn Llyfrgell yr Hyb Ganolog bob prynhawn Iau am 3.00pm a sesiwn sgwrsio ar Zoom bob dydd Gwener ola’r mis,

Bydd criw o ddysgwyr a thiwtoriaid o Ddysgu Cymraeg Caerdydd yn ymuno â staff y Fenter ar fore Sadwrn, 15 Tachwedd i ymweld â busnesau sydd â siaradwyr Cymraeg yn ardal Treganna a Phontcanna. Os ydych chi’n berchen ar fusnes mewn unrhyw ardal o Gaerdydd ac yn awyddus i fod yn rhan o gynllun ‘Hapus i Siarad’, cysylltwch! Gallwn ddarparu poster i’r ffenestr a llinynnau ar gyfer staff er mwyn dangos i gwsmeriaid bod croeso iddynt ddechrau sgwrs gyda chi yn Gymraeg.

**Sgwrs y Mis**
I nodi 100 mlynedd ers geni Richard Burton, bydd Dr Gethin Matthews yn olrhain hanes yr actor o Bont-rhyd-y-fen gan ganolbwyntio ar ei gysylltiadau a’i agwedd at Gymru. Yn y sgwrs, ‘Richard Burton: Seren Cymru?’, bydd Gethin yn edrych o’r newydd ar y dystiolaeth a gasglodd wrth ysgrifennu ei fywgraffiad o’r actor 25 mlynedd yn ôl, ac yn trafod perthynas gymhleth Richard â’i famwlad. Bryd hynny, fe awgrymodd mai Richard oedd y llysgennad gorau oedd Cymru wedi’i gael erioed: ydy’r asesiad hwnnw’n wir o hyd? Nos Iau, 20 Tachwedd**,** 7.30pm ar Zoom. Awgrymir cyfraniad o £5 y sgwrs i’r rhai sydd heb dalu am y flwyddyn.

**Cwrs Cymorth Cyntaf**
A fyddech chi’n gwybod beth i’w wneud petai rhywun yn y tŷ yn torri bys neu angen cymorth cyntaf brys? Bydd Menter Caerdydd yn rhedeg cwrs Cymorth Cyntaf Brys Undydd ar ddydd Gwener, 28 Tachwedd rhwng 09:30 a 16:30 yn yr Hen Lyfrgell ynghanol y ddinas. Cwrs wedi’i achredu, a’r gost yw £45 y pen.

**Plant a Theuluoedd**
Bydd y sesiynau Amser Stori’n ail-ddechrau ar ôl hanner tymor ac yn parhau yn y lleoliadau arferol hyd wyliau’r Nadolig. Bydd digon o wreichion yn y gweithdy gwyddoniaeth gyda SparkLab yn Ysgol y Berllan Deg ar 4 Tachwedd a llond lle o hwyl yn y Clybiau Dawns a Drama sy’n ail-ddechrau ar ddydd Sadwrn, 8 Tachwedd. Cofiwch sicrhau lle i’ch plentyn drwy gofrestru ar y wefan.

**Edrych ymlaen at fis Rhagfyr**

**Ymweld â Siôn Corn**
Bydd Menter Caerdydd yn rhan o Ffair Nadolig GM Notebooks yn yr Eglwys Norwyaidd ar fore Sadwrn, 20 Rhagfyr gan gynnig cyfle i blant bach Caerdydd ymweld â Siôn Corn yn Gymraeg! Bydd y tocyn yn cynnwys anrheg a gweithgaredd celf a chrefft. Am fwy o fanylion a chyfle i gofrestru, cadwch lygad ar y wefan.


I gael gwybodaeth am weithgareddau i blant: mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc
I gael gwybodaeth am weithgareddau i oedolion: mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

Gwefan: mentercaerdydd.cymru
Facebook: @m.caerdydd
Instagram: @mentercaerdydd
E-bost / Ffôn: post@mentercaerdydd.cymru / 029 2068 9888

**Mis Tachwedd yn y Fro**
Wedi prysurdeb mis Hydref, mae criw Menter Iaith Bro Morgannwg wedi bod yn brysur yn llenwi’r amserlen ar gyfer hanner tymor ola’r flwyddyn.


**Sesiynau ar-lein**
Rydym yn edrych ymlaen at ymuno â’n ffrindiau ym Menter Caerdydd ar gyfer y canlynol: cwrs gwerthfawrogi barddoniaeth ar Zoom, yng nghwmni Bethan Mair bob nos Lun ym mis Tachwedd; Bore Coffi Misol ar Zoom ar fore Gwener ola’r mis; Sgwrs y Mis nos Iau, 20 Tachwedd gyda Dr Gethin Matthews. Cofiwch gofrestru ymlaen llaw er mwyn derbyn y ddolen Zoom mewn da bryd.

## Rhif: 257




**Ar Draws**
2. Bod yn ddoeth ar ôl dechrau cwrs allanol llewyrchus (3)
5. A oes hast am baned yma? (6)
7. 'Gwena'r haul o'r cwmwl du,
----- ----- ddangos Duw i ni' (cyf HEL) (2,4)
9. Diana fach yn cael dwsin athro truenus ar yn ail (4,7)
10. Un mwy nag 20 (6)
11. Deall stori Dai a'r anffawd ar yn ail (6)
13. Modur yn cyrraedd yr elusen (6)
16. Cael erthygl allan o'r tystysgrifau (6)
18. 'O! na ddeuai chwa i'm suo,
----- ----- ----- ddistaw, bell' (AEJ) (1,4,6)
19. Darlledwr diog yn cael ei geryddu'n fewnol (6)
20. Pâr yn canu mewn undod (6)
21. 'Ond mae ----- yn y nen
Ac mae'r lleuad yn wen' (D,'P',M) (3)

**I Lawr**
1. 'Oherwydd lle mae dy -----, yno hefyd y bydd dy galon (Mathew,BCN) (6)
2. Gall credu'r da ond ar yn ail arwain at wacter (6)
3. Y llwy yn llaw Ted efallai (6)
4. Sioc trydan yn achosi croesdynnu (6)
6. Plismyn eisteddfodol (11)
8. Mil darn toredig a mwyaf da yn rhan o'r planhigion yma (11)
10. Bydd partner tic yma'n fuan (3)
12. Y swci'n dod 'nôl mewn anfodlonrwydd (3)
14. Gwneud archwiliad o'r glaw efallai (6)
15. Y Dyniadon wedi eu gwasgu'n feidrolion (6)
16. Gweithdy'r pannwr - mae un Tudur yn y gogledd (1,5)
17. 'Wyt ----- yn oer
A'th farrug yn wyn' (EW) (6)



**Enillydd Croesair Rhif 255**
**Nia Williams, Creigiau**

**Atebion Croesair Rhif 254**
**Ar Draws**
6. Dihalog 7. Digon 9. Maneg 10. Lloergan
12. Caerhirfryn 14 Creigle uchel 18. Llawenydd
19. Addoli 21. Cofia 22. Mwyar ar
**I Lawr**
1. Dinas 2. Camera 3. Ton 4. Digrif 5. Gorawydd
8. Gofidus 11. Arglwydd 13. Criafol 15. Iddewig
16. Eiddgar 17. Alban 20. Gwg

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Rhagfyr, 2025
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

**Siaradwyr Newydd**
Oes gennych chi ffrindiau sy'n gwybod popeth am bopeth? Cynhelir y cwis nesaf i ddysgwyr o bob lefel yng Nghanolfan Palmerston yn y Barri, nos Fawrth, 11 Tachwedd am 7:30pm. Dewch draw i gael hwyl ac i brofi eich gwybodaeth gyffredinol! Cost: £3.
Mwy o fanylion ar y wefan: https:/
menterbromorgannwg.cymru/cy/gweithgareddau/
oedolion

**Plant:**
Bydd ein **Clwb Dyfeiswyr** newydd yn Ysgol San Baruc, ar ddydd Sadwrn, 8 Tachwedd yn cynnig cyfle i blant fod yn greadigol gyda LEGO® SPIKE™! Yn y sesiwn hwyliog hon, bydd disgyblion yn archwilio roboteg a chodio wrth adeiladu creadigaethau LEGO® gwych. Cynhelir dwy sesiwn – y naill ar gyfer plant blwyddyn 2 a 3 (9:30am-11:00am) a'r llall ar gyfer plant ym mlynyddoedd 4 a 5 (11:00am-12:30pm). Cost: £3.

**Gweithdy Gwyddoniaeth**
Cynhelir ein gweithdy gwyddoniaeth yng nghwmni SparkLab yn Ysgol Iolo Morganwg, ddydd Iau, 27 Tachwedd, a bydd yn llawn hwyl y Nadolig. Bydd y plant yn cymryd rhan mewn arbrofion cyffrous, heriau creadigol a darganfyddiadau hudolus – i gyd â thema Nadoligaidd. Bydd y sesiwn yn addas ar gyfer plant ym mlynyddoedd 1 i 6. Cost: £12.
https://menterbromorgannwg.cymru/cy/
gweithgareddau/plant

Cofiwch gadw llygad ar y wefan ar gyfer y digwyddiadau diweddaraf, neu ymunwch â'n gwasanaeth e@chlysur i dderbyn manylion drwy e-bost.

**Am fwy o wybodaeth:**
Gwefan: menterbromorgannwg.cymru
Facebook: @MIBroMorgannwg
Instagram: @menterbromorgannwg
Ffôn: 029 2068 9888

# Colofn Chwaraeon Hywel Owen

***John Hayes sy'n adrodd ar ddechrau gwych i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd yn Adran 2 URC Canol Dwyrain***

Mae wedi bod yn ddechrau arbennig o dda i dymor Clwb Rygbi Cymry Caerdydd (CRCC) yn yr ail adran yn dilyn dyrchafiad y tymor diwethaf. Ar ddiwedd mis Hydref mae'r clwb ar frig y gynghrair wedi ennill pedair o'r pum gêm gyntaf. Mae'n argoeli i fod yn gynghrair gystadleuol tu hwnt gyda dim ond tri phwynt yn gwahanu'r chwe thîm uchaf yn y tabl.



Rhaid canmol arddull chwarae agored y tîm gyda'r blaenwyr a'r cefnwyr yn cyfuno'n wych wrth ymosod o bob rhan o'r cae. Mae'r pedwar pwynt bonws hyd yma yn tystio i'w gallu i sgorio ceisiau. Mae amddiffyn y tîm yn gryf, a bydd gofyn iddynt barhau i ddangos dygnwch a dyfalbarhad gan fod gemau cystadleuol iawn ar y gorwel ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr.

Pob clod i'r tîm hyd yn hyn am ddiddanu'r dorf bob dydd Sadwrn. Os cewch gyfle, dewch draw i gaeau Pontcanna i gefnogi'r tîm pan fyddant yn chwarae adref, ac arhowsch am sgwrs a chyfeillach yn nhafarn yr Halfway ar ddiwedd y gêm.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13.09.25: | CRCC | 49 – 19 | Rhiwbeina |
| 20.09.25: | Ffynon Taf | 17 – 43 | CRCC |
| 27.09.25: | CRCC | 45 – 19 | Pentyrch |
| 11.10.25: | Y Bontfaen | 17 – 15 | CRCC |
| 18.10.25: | CRCC | 32 – 30 | Wattstown |

01.11.25: Porth vs CRCC
08.11.25: CRCC vs Ynysybwl
06.12.25: Quins Caerdydd vs CRCC
13.12.25: CRCC vs Ffynnon Taf
20.12.25: Rhiwbeina vs CRCC

**Canlyniad siomedig i Gymru yn erbyn Gwlad Belg – Wil Feeney sy'n cyflwyno'r hanes**

Cafodd gobeithion Cymru o gyrraedd Cwpan y Byd ergyd fawr wrth i Wlad Belg ddod nôl i ennill 4–2 ar 13 Hydref 2025 yn Stadiwm Dinas Caerdydd.

Dechreuodd Cymru'r gêm yn fywiog iawn, a gallent fod ddwy gôl ar y blaen o fewn pum munud. Cafodd Mark Harris gyfle da, ac wedyn cafodd David Brooks ei dynnu lawr yn y cwrt cosbi – ond ni chafwyd cic o'r smotyn. Yn fuan wedi hynny cododd Joe Rodon i benio'r bêl i sgorio ar ôl cornel gan Sorba Thomas ar ôl dim ond saith munud.

Newidiodd y momentwm yn sydyn. Cafodd Gwlad Belg gic o'r smotyn wedi adolygiad VAR am lawio, a saethodd De Bruyne y bêl i'r gôl ar ôl 17 munud. O'r eiliad honno ymlaen roedd yr ymwelwyr mewn rheolaeth gan symud y bêl yn sydyn ac amlygu gwendidau amddiffyn Cymru. Ychwanegodd Thomas Meunier ail gôl i Wlad Belg chwe munud yn ddiweddarach ar ôl croesiad gan Jeremy Doku.

Cafodd Cymru drafferth ailafael yn y gêm, ond cafodd Jordan James a Harry Wilson gyfleoedd cyn yr hanner. Yn ystod yr egwyl, cododd y dorf ar eu traed i anrhydeddu Hennessey, yn dilyn ei ymddeoliad, gan ddiolch iddo am ei wasanaeth i bêl-droed Cymru.

Dechreuodd Gwlad Belg yr ail hanner ar y blaen, gyda Doku yn peri penbleth eto i'r amddiffyn. Daeth Brennan Johnson i'r cae yn lle Brooks i roi egni newydd, ond parhaodd Gwlad Belg i reoli'r gêm gan ennill cic o'r smotyn. Sgoriodd De Bruyne eto i'w gwneud hi'n 3–1.

Rhoddodd Nathan Broadhead obaith hwyr i Gymru gyda gôl ar 88 munud, ond tarodd Leandro Trossard bedwaredd gôl y Belgiaid yn yr amser ychwanegol i selio'r fuddugoliaeth.

Noson siomedig i Gymru, a ddechreuodd yn wych ond a gosbwyd gan gamgymeriadau ac effeithlonrwydd y Belgiaid. Mae gan Gymru gyfle mathemategol i ennill y grŵp, ond yn fwy realistig bydd angen buddugoliaethau yn erbyn Liechtenstein a Gogledd Macedonia i gyrraedd y gemau ail-gyfle.

